

Craffu ar Gyfrifon 2016-17

Chwefror 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@assembly.wales**
Twitter: **[@SeneddArchwilo](https://twitter.com/SeneddArchwilo)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyfrifon 2016-17

Chwefror 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Adam Price AC
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

* Etholwyd Adam Price i'r Pwyllgor ar 18 Hydref 2017

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
1. Cyflwyniad	9
2. Materion Trawsbynciol	11
Gwerthuso cynlluniau a mesur effaith	15
Y defnydd o adnoddau gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus.....	16
Dibyniaeth ar arian cyhoeddus.....	16
Polisi cronfa wrth gefn/arian parod i'w gario ymlaen.....	18
3. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	19
Adroddiad Blynyddol (Adroddiad ar berfformiad)	19
Atebolrwydd	20
Taliadau	23
4. Llywodraeth Cymru	24
Rheoli perfformiad	26
Atebolrwydd	27
Mecanweithiau cyllidebu.....	28
5. Chwaraeon Cymru	30
Cefndir	30
Mesur perfformiad a gwerthuso	30
Risgiau	33
Llywodraethu a thryloywder.....	35
Caffael	36
6. Comisiwn y Cynulliad	38
Gwefan y Cynulliad	38
Llywodraethu.....	39
Absenoldeb Staff.....	42
7. Cyngor Celfyddydau Cymru	45
Targedau perfformiad	45

Adolygiad sefydliadol.....	46
Cronfeydd wrth gefn	47

8. Llyfrgell Genedlaethol Cymru..... 49

Cynnydd yn erbyn argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad a'r Adolygiad Llywodraethu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru	49
Risgiau	53
Strategaeth datblygu'r gweithlu	56

Atodiad A – Tystion..... 59

Rhagair y Cadeirydd

Ers 2014 mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ymgymryd â gwaith craffu blynyddol ar gyfrifon ac adroddiadau blynyddol nifer o sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ochr yn ochr â'i waith craffu blynyddol (ar gyfrifon) Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith craffu hwn wedi gweld gwelliant o un flwyddyn i'r llall i gyflwyniad a hygyrchedd adroddiadau blynyddol a chyfrifon gan y cyrff cyhoeddus sydd wedi ymddangos ger ein bron.

Rydym wedi gweld bod gwaith craffu cadarn ac annibynnol yn sbardun pwysig o ran atebolrwydd a chyflwyno adroddiadau ariannol tryloyw. Mae gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus rôl hanfodol yn datgelu problemau a chamreoli'n gynnar er mwyn gwneud arbedion ariannol yn y tymor hwy. Mae gennym rôl ragweithiol nid yn unig yn herio gwastraff ac aneffeithlonrwydd ond hefyd yn darparu'r gwiriadau a'r balansau ar ba mor dda y mae sefydliadau'n darparu gwasanaethau i'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu.

Drwy ein gwaith craffu ar gyfrifon, mae gennym gyfle hefyd i archwilio materion llywodraethu a rheolaeth ariannol, gan dynnu sylw at unrhyw faterion yn y maes cyhoeddus, gan gynnig tryloywder a natur agored.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n ceisio gwella llywodraethu ac adroddiadau ariannol. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o waith eleni o graffu ar gyfrifon.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn ar gyfer paratoi adroddiad blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf cyn cyhoeddi canllawiau pellach i Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth baratoi ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon a bod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol, a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys eu hunain. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol..... Tudalen 15

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell nad yw gwaith cynllunio ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn tybio'r lefel bresennol o gyllid cyhoeddus a'i bod yn mynd i'r afael â'r ystod o senarios, gan gynnwys gostyngiadau yn yr adnoddau sydd ar gael iddi..... Tudalen 18

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol ymagweddau tuag at bolisiau cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyrff a noddir ganddi, yn arbennig o ystyried yr hyblygrwydd gwell a roddir iddi yn sgil Cronfa newydd Cymru o 2018-19..... Tudalen 18

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau blynyddol a chyfrifon yn y dyfodol am berfformiad ei swyddfa yn erbyn ei amcanion.....Tudalen 20

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu ei hargymhellion i sefydliadau eraill mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol er mwyn gallu monitro'r gwaith o'u gweithredu.....Tudalen 20

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gwerthuso'r gyfran uchel o secondiadau yn ei gweithlu o fewn dwy flynedd (Ionawr 2020) i ystyried a yw'n effeithio ar allbynnau ac effeithlonrwydd y sefydliad..... Tudalen 22

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn dangos i'r Pwyllgor effaith yr amgylchedd gwaith hyfyw ac yn hyrwyddo unrhyw arfer da y mae'n ei nodi..... Tudalen 23

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ailymweld â'r syniad o ddatgelu taliadau ar gyfer uwch-aelodau o staff, gan sicrhau ei fod yn nodi gwybodaeth i alluogi cymhariaeth uniongyrchol o lefel y taliadau a dalwyd i'r cyfarwyddwyr o fewn Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac a gyflogir gan gyrrff eraill..... Tudalen 23

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gwaith Archwilio Mewnol cyn i'r Pwyllgor graffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, gan ein galluogi i roi ystyriaeth ddyledus i'r cynnydd cyn inni ystyried y cyfrifon yn fanwl ym mis Medi 2018.
..... Tudalen 25

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir sut y mae ei systemau Rheoli Perfformiad yn gadarn ac yn cynhyrchu canlyniadau pendant..... Tudalen 27

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer yr holl staff yn Llywodraeth Cymru sy'n ennill dros £100,000 o fewn blwyddyn yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru yn ogystal â'u cynnwys yn y polisi tâl a gyhoeddir ar wahân. Rydym yn argymhell y cyhoeddir y wybodaeth hon ar yr un pryd â'r cyfrifon archwiliedig..... Tudalen 28

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod datgeliadau yn y datganiadau ariannol ar gyllideb ac alldro Llywodraeth Cymru yn glir ac yn dryloyw.... Tudalen 29

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Chwaraeon Cymru yn rhannu canlyniad y gwerthusiad o'i Raglenni Pobl Ifanc gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w hystyried..... Tudalen 32

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod Chwaraeon Cymru yn monitro'r effaith a gaiff hyrwyddo caeau 3G ar fynediad at gaeau sy'n eiddo i awdurdodau lleol, gan rannu canlyniadau'r gwaith monitro hwn â'r Pwyllgor, a gweithio i sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod mor hygyrch â phosibl i bawb..... Tudalen 33

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Chwaraeon Cymru yn ceisio hyrwyddo a diogelu mynediad i bawb at yr holl gyfleusterau chwaraeon sy'n eiddo i awdurdodau lleol..... Tudalen 33

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu manylion inni am sut y mae ei adolygiad o gapasiti wedi profi lefelau staffio a darparu manylion am sut y caiff staff eu lleoli i gyflawni blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad..... Tudalen 42

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o reoli absenoldebau staff yn effeithiol a sicrhau lles staff. Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fonitro lefelau absenoldebau staff yn ofalus, gan gynnwys dadansoddi achosion yr absenoldebau oherwydd salwch er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol..... Tudalen 44

Argymhelliad 19. Nid ydym yn fodlon ar lefel y cymorth y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei ddarparu i gefnogi ymgysylltiad â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn adolygu'r cymorth hwn gyda'r bwriad o'i gynyddu..... Tudalen 46

Argymhelliad 20. Rydym yn pryderu bod rôl Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru yn swydd rhan-amser erbyn hyn ac rydym yn argymhell bod Bwrdd Cyngor y Celfyddydau yn cadarnhau ei fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb am drosolwg ariannol strategol y Cyngor yn cael ei gyflawni'n foddhaol o fewn y sefydliad..... Tudalen 47

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn adolygu ei chynllun pensiwn fel mater o frys ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y gall weithredu cynllun sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy, o ystyried y caledi parhaus a'r pwysau sydd ar gyllid cyhoeddus..... Tudalen 52

Argymhelliad 22. Rydym yn pryderu nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cydnabod yn llawn yr heriau a'r goblygiadau o wrthod cyllid yn y dyfodol ac rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir yn ei gwaith cynllunio senario ar gyfer y dyfodol sut y mae'n bwriadu ymateb i'r gostyngiad hwn mewn cyllidTudalen 56

Argymhelliad 23. Rydym yn pryderu bod cyflymder y newid a'r amserlenni ar gyfer darparu cynllun gweithlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn annigonol. Rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir ei chynllun gweithredu ar gyfer darparu ei chynllun fel mater o frys ac yn rhannu'r cynllun hwn â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.....Tudalen 58

1. Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymgymryd â gwaith craffu blynyddol ar nifer o gyrff a ariennir yn gyhoeddus yn yr hydref bob blwyddyn yn dilyn cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon sefydliadau dros gyfnod yr haf. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor wrth sicrhau bod digon o waith craffu yn cael ei wneud ar sut y caiff cronfeydd cyhoeddus eu gwario.

2. Ochr yn ochr â'i waith craffu blynyddol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn ystyried cyfrifon detholiad o sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Credwn fod y rôl oruchwyllo hon wedi gwella ansawdd yr adroddiadau ariannol gan fod sefydliadau'n cymryd mwy o gyfrifoldeb dros fodloni gofynion cyfrifyddu gan eu bod yn gwybod y gallent gael eu galw gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i egluro eu perfformiad.

3. Ar gyfer y cyfnod 2016-17, ystyriodd y Pwyllgor gyfrifon Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell Genedlaethol) a Chwaraeon Cymru. Roeddem hefyd wedi bwriadu ystyried Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod hydref 2016. Fodd bynnag, bu oedi yn y gwaith o ystyried y cyfrifon hyd nes bod yr Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa i roi barn ar y cyfrifon a ddarparodd ar 9 Mawrth 2017. Ymdriniwyd â'r mater hwn ar wahân yn ein hadroddiad, "**Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16**"¹ a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.

4. Drwy gydol y gwaith craffu ar gyfrifon eleni, roedd nifer o faterion trawsbynciol yn codi o gyfrifon y sefydliadau a ystyriwyd gennym, gan gynnwys:

- gweithredu gofynion y Trysorlys ar gyfer fformat a chyflwyniad adroddiadau blynyddol a chyfrifon ac i ba raddau y mae'r rhain yn berthnasol i'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru;
- gwerthuso cynlluniau a mesur effaith;
- effaith toriadau cyllideb a'r effaith ar gynllunio ariannol;
- y defnydd o adnoddau gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ac yn enwedig sut y mae sefydliadau'n ymateb i'r heriau i barhau i weithredu o fewn eu cyllideb, gan gynnwys y materion sy'n ymwneud â'r diffyg pensiwn cynyddol;

¹ **Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16**

- dibyniaeth ar arian cyhoeddus; a
- pholisi cronfa wrth gefn/arian parod i'w gario ymlaen.

5. Mae'r penodau dilynol yn trafod y materion hyn a sut ymaent yn ymwneud yn benodol â phob sefydliad. Mae'r bennod gyntaf yn canolbwyntio ar faterion trawsbynciol sy'n codi o'n harchwiliad ehangach o'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon.

2. Materion Trawsbynciol

6. Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi² yw'r canllaw cyfrifyddu technegol ar gyfer paratoi adroddiad blynyddol a chyfrifon cyrff y sector cyhoeddus yn y sector llywodraeth ganolog, sy'n cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n elusennau cofrestredig baratoi adroddiad blynyddol a chyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Wrth bennu'r gofynion ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn mynnu bod y rhai sydd â statws elusen yn rhoi sylw i ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol i'r graddau y mae'n egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir.

7. Yn dilyn y diwygiadau sy'n deillio o brosiect "Clear Line of Sight" Trysorlys EM,³ cyhoeddodd Trysorlys EM yn 2014 bapur o'r enw 'Simplifying and Streamlining the Statutory Annual Report and Accounts'⁴. Ei nod oedd bod y cyfrifon a gynhyrchwyd gan gyrff llywodraeth ganolog yn diwallu anghenion defnyddwyr yn well.

8. Ar 18 Mai 2016 cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad blynyddol cyntaf ar ei archwiliadau o ddatganiadau ariannol cyrff llywodraeth ganolog,⁵ sy'n rhoi crynodeb o ganlyniadau ei waith archwilio. Canfu'r adroddiad fod pob corff llywodraeth ganolog wedi cyflwyno eu cyfrifon i'w harchwilio ar amser a chyflwynwyd pob barn archwilio erbyn y terfyn amser gofynnol. Canfu'r adroddiad hefyd fod safon y cyfrifon drafft yn parhau i fod yn dda ond mae cwmpas i wella'r trefniadau sicrhau ansawdd a gaiff eu mabwysiadu gan gyrff a chodi safonau ymhellach.

9. O 2015-16 ymlaen, roedd yn ofynnol i gyrff llywodraeth ganolog baratoi un ddogfen a oedd yn cyfuno elfennau "cyfrifon" ac "adroddiad blynyddol". Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn mynnu bod y ddogfen, a elwir yr "Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon", yn cael ei chyflwyno mewn tair rhan. Cyfeirir at y ddwy gyntaf fel yr "adroddiad blynyddol":

Part 1: The Performance Report – The aim of this report is to present a clear picture of the organisation's aims, objectives, functions and performance. The Performance Report should also include narrative about

² **Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM**

³ **Prosiect "Clear Line of Sight" Trysorlys EM**

⁴ **Simplifying and Streamlining the Statutory Annual Report and Accounts**

⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyfrifon Llywodraeth Ganolog ar gyfer 2015-16, 18 Mai 2017

an organisation's performance over the last year that links to the income and expenditure for the same period.

Part 2: The Accountability Report – This includes three reports: the corporate governance report; remuneration and staff report; and accountability and audit report.

Part 3: The Financial Statements (or the “accounts”) – The primary financial statements and the related notes.

10. Mae'r Pwyllgor, a'i Bwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad, wedi monitro cydymffurfiad y sefydliad â'r gofynion hyn gan gydnabod y pwysigrwydd o wneud y dogfennau hyn yn dryloyw ac yn hygyrch i bawb. Yn dilyn ein gwaith o graffu ar Gyfrifon 2015-16, gwnaethom argymhell:

“...bod sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn gweithio i gyflwyno'r wybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon mewn dull mor syml â phosibl. Wrth wneud hyn dylid ystyried defnyddio diagramau a ffeithluniau i wneud gwybodaeth allweddol mor ddarllenadwy â phosibl.”⁶

11. Archwiliwyd yr ymagwedd tuag at bob un o'r sefydliadau sy'n ymddangos ger ein bron i wneud dogfennaeth gyfrifyddu yn fwy tryloyw a hygyrch i'r cyhoedd. Gwnaethom hefyd ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn adrodd ar eu perfformiad a pha mor eglur y maent yn amlinellu sut y defnyddiwyd arian cyhoeddus i gyflawni amcanion, gan gynnwys i b rddau y maent yn egluro'r alinioad o arian a chanlyniadau. Mae ein gwaith craffu wedi nodi ystod o arferion.

12. Eglurodd Sarah Powell, Prif Weithredwr Chwaraeon Cymru ei fod wedi gweithredu ar rywfaint o'r adborth a gafwyd gan ein Pwyllgor blaenorol a oedd o'r farn bod gan Chwaraeon Cymru ormod o ddogfennau ariannol, sy'n golygu bod gwybodaeth sy'n berthnasol i gyllid Chwaraeon Cymru, h.y. ei gyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol, wedi'u lledaenu ar draws nifer o ddogfennau ariannol. Roedd hyn wedi'i gwneud hi'n anodd i ddarllenwyr ddeall y wybodaeth ac i'r Pwyllgor graffu ar y wybodaeth.

13. Eglurodd Ms Powell eu bod, am y tro cyntaf eleni, wedi cyfuno eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon. Gwnaeth ymrwymiad hefyd i ofyn am welliant pellach o ran bod yn agored ac yn dryloyw er mwyn sicrhau bod gofynion eu dyletswydd statudol

⁶ Argymhelliad 1, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Craffu ar Gyfrifon 2015-16, Rhagfyr 2016

yn cael eu bodloni. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y defnydd cynyddol o ffeithluniau a defnyddio diagramau i gyflwyno data.⁷

14. Yn yr un modd, amlinellodd Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ddull Comisiwn y Cynulliad o sicrhau bod ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon wedi'u llunio yn unol ag adroddiad symleiddio Trysorlys EM ei hun.⁸ Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn canmol y Comisiwn am gynnwys ffeithluniau fel ffordd o helpu i wneud ystadegau yn fwy atyniadol a hygyrch.

15. Darganfu'r Pwyllgor ymhellach fod fformat Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'u gosod mewn trefn systemig, gan ganiatáu i'r darllenydd ddilyn adrannau'r cyfrifon yn hawdd a deall sut y mae Cyngor y Celfyddydau wedi ymateb i'r blaenoriaethau a nodir yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2016-17.

16. Hefyd, dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru wrth y Pwyllgor ei fod wedi defnyddio cymysgedd o wahanol fathau o wybodaeth yn ei gyfrifon blynyddol, gan egluro:

“...as well as the prescribed text over which we have little discretion—it has to be presented in a particular way—nevertheless, we’ve tried to increase the number of charts, diagrams, we’ve tried to make the non-required text as readable as we can, and to try and provide everything within the report that a reader might reasonably require as a first point of contact in terms of understanding what we do.”⁹

17. Fodd bynnag, ychwanegodd Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, y byddai mwy yn cael ei wneud i wella hygyrchedd dogfennaeth adrodd ariannol gan gydnabod y pwysigrwydd fel corff cyhoeddus i gyflwyno gwybodaeth glir ac addysgiadol. Ychwanegodd Mr Capaldi y gellid dangos mwy o wybodaeth ar ffurf diagramau a thablau, oherwydd bod pobl, yn ei dyb ef, yn ei chael yn haws eu defnyddio a rhoddodd ymrwymiad y byddai ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd ei darllen i bawb.

18. Bu'r Pwyllgor hefyd yn cwestiynu Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am ei phrofiad o lunio'i hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon cyntaf yn unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Dywedodd y Comisiynydd nad oedd cynhyrchu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon wedi bod yn “arbennig o anodd”.

⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 35

⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 231

⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 15

Roedd yn cydnabod y gellid gwneud mwy o ran gwella hygyrchedd y ddogfen, a sicrhau ei bod yn fwy deniadol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion arno yn flaenorol i gyrff eraill, gan ein bod o'r farn bod hwn yn rhan bwysig o dryloywder.

19. Nododd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Shan Morgan, ei bod yn ofynnol iddi gydymffurfio â rhannau 2 a 3 o'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a holodd y Pwyllgor Ms Morgan am y broses o gwblhau ei chyfres gyntaf o adroddiad blynyddol a chyfrifon yn unol â gofynion y Llawlyfr. Cawsom wybod:

"We comply, in relation to parts 2 and 3 of the report, with the financial reporting manual and the annual employer pension notice, which give a lot of detail about what we have to do. I know there is HMT guidance available on how we handle part 1 of the report, but, in fact, we don't have to follow it specifically as a devolved government. What we've tried to do, and I've been very struck by that in the process, is to try and make that part 1 bit as open and readable as possible."¹⁰

20. Drwy bennu gofynion ar gyfer ei chyrrff a noddir, nodwn fod Llywodraeth Cymru yn mynnu cydymffurfio â phob rhan o'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. O'r herwydd, gellid dadlau bod y gofynion ar gyrff a noddir yn fwy na'r rhai ar Lywodraeth Cymru ei hun. Ychwanegodd Ms Morgan fod gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd yn yr hyn y mae'n ei adrodd:

"...as a devolved Government, we are not constrained by the guidance. We can take best practice and develop it in ways that we think are right to produce a transparent, accurate and readable document."¹¹

21. Mae'r Pwyllgor yn falch o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i wella darllenadwyedd a hygyrchedd ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon. Roeddem hefyd yn falch o nodi bod y cyfrifon yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn, o gofio bod y Pwyllgor wedi tynnu sylw yn y gorffennol at yr angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad ar weithredu safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chydymffurfio â rhai agweddau ar ganllawiau Trysorlys EM ar Ran 1 (adrodd ar berfformiad). Rydym hefyd am geisio eglurder ynghylch pa ganllawiau'r Trysorlys y mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cydymffurfio â hwy a'r hyn nad ydynt am gydymffurfio ag ef.

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 131

¹¹ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 160

22. At hynny, er cysondeb ac o gofio ei bod yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn llawn neu'n rhannol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro'r gofynion ar gyfer ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon ei hun, yn ogystal â gofynion y cyrff a noddir ganddi.

23. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a wneir gan sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru wrth gyflwyno eu gwybodaeth ariannol mor glir a syml â phosibl. Credwn fod gwneud gwybodaeth ariannol yn fwy darllenadwy yn ddechrau cadarnhaol ond mae angen gwneud mwy yn hyn o beth. Mae mater ehangach ynghylch yr angen i gynnwys gwybodaeth i ddeall sut y mae cyrff cyhoeddus wedi perfformio yn ystod y flwyddyn yn yr adroddiad blynyddol. Dylai'r wybodaeth a geir mewn dogfennau ariannol gynnwys manylion clir a digonol i alluogi gwaith craffu a dylai nodi sut y mae cyrff cyhoeddus wedi perfformio yn erbyn eu hamcanion, gan gynnwys sut y maent wedi mesur eu perfformiad. Mae'n bwysig bod yr adroddiad blynyddol yn nodi'n glir sut a pham y mae arian cyhoeddus wedi'i ddyrannu a beth mae'r gwariant - fel y nodwyd yn y cyfrifon - wedi'i ddylunio i'w gyflawni.

24. Rydym hefyd yn nodi er bod yr archwilydd allanol yn gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol (neu'r "cyfrifon") a rhannau penodol eraill o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, dim ond er mwyn darllen yr holl rannau eraill ac ystyried a yw'r wybodaeth yn gyson â'r cyfrifon a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad y maent. Felly, nid rôl yr archwilydd allanol yw sicrhau bod sefydliadau'n cynnwys gwybodaeth ddigonol a phriodol am eu perfformiad yn yr adroddiad blynyddol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn ar gyfer paratoi adroddiad blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf cyn cyhoeddi canllawiau pellach i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth baratoi ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon a bod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol, a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys eu hunain. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol.

Gwerthuso cynlluniau a mesur effaith

25. Ar adeg o galedi parhaus, gyda phwysau ar arian cyhoeddus a'r angen i wneud toriadau, mae'n gynyddol bwysig bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio arian yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gwerthusiad o gynlluniau a phrosiectau a ariennir yn gyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth.

26. Mynegwyd gwerthuso a monitro cynlluniau yn bennaf fel mater o bwys gyda Chwaraeon Cymru ond mae egwyddor ehangach y dylai pob corff a ariennir yn gyhoeddus sicrhau egwyddorion gwerth am arian gyda phrosiectau y maent yn ymgymryd â hwy.

Y defnydd o adnoddau gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus

27. Un broblem sy'n wynebu nifer o sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yw cwrdd â'r gost gynyddol o daliadau diffyg pensiwn. Clywsom gan Chwaraeon Cymru am y dulliau y maent yn eu defnyddio i ysgwyddo'r costau hyn. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd ganfod bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn cymharol hael o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r risg y mae hyn yn ei beri i ariannu'r sefydliad yn y dyfodol. Roedd hwn hefyd yn fater a godwyd gan ein Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad wrth iddynt graffu ar gyfrifon y Llyfrgell Genedlaethol fel rhan o'r Gwaith Craffu ar Gyfrifon 2014-15.¹² Rydym yn archwilio'r mater hwn yn fanylach yn yr adran berthnasol o'r adroddiad hwn.

Dibyniaeth ar arian cyhoeddus

28. Trafododd y Pwyllgor gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ei ddull o annog sefydliadau i ddod yn fwy hunangynhaliol, sydd hefyd yn fater sydd wedi'i drafod yng nghyd-destun ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu¹³ i sut i arallgyfeirio cyllid ar gyfer y celfyddydau. Gwnaethom gwestiynu, o ystyried y cyfyngiadau ar allu sefydliadau i godi arian eu hunain drwy ffynonellau'r sector preifat, yn realistig, faint o gyfle sydd ar gael iddynt hwyluso buddsoddiad ychwanegol.¹⁴

29. Clywsom fod rhai sefydliadau mewn sefyllfa well i gynhyrchu incwm a bod Cyngor y Celfyddydau yn gweithio gyda thua 54 o aelodau o'i bortffolio i fuddsoddi amser ac egni gwirioneddol i'w helpu i ddatblygu eu potensial cynhyrchu incwm.¹⁵ Fodd bynnag, cawsom hefyd wybod bod Cyngor y Celfyddydau yn cadw golwg ar y maes hwn o ystyried y perygl na fyddent yn gweld newid sylweddol mewn cyllid, gan ychwanegu:

“I think the portfolio will be more resilient because it will use funding I think more effectively and better, but whether it will deliver large

¹² **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, Rhagfyr 2015**

¹³ **Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, “Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau”**

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 123

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 125

amounts of new and additional funding, I think the jury's out on that one."¹⁶

30. Roedd y mater o godi arian preifat yn un a godwyd gennym hefyd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gwnaethom ddarllen yn eu cyfrifon fod y Llyfrgell Genedlaethol wedi elwa o rai cymynroddion hanesyddol ond, o ran codi arian blynyddol o ffynonellau preifat y tu hwnt i hynny, bu llwyddiant cyfyngedig yn ddiweddar.¹⁷

31. Cawsom wybod bod rheoli darpar roddwyr yn gydberthynas hirdymor ac yn fater cynllunio strategol:

“For example, the library were extremely fortunate of the generosity of one individual when it received £1.5 million. So, I think it's fair to say that our management of donors is through relationship, communication, talking about the library's priorities, talking about our requirements, and that over the years has borne fruit.”¹⁸

32. Clywsom hefyd fod y Llyfrgell Genedlaethol wedi cronni cronfeydd elusennol dros gyfnod hir, ac mae'n defnyddio'r er budd gwaith y Llyfrgell Genedlaethol, ac mae'r gydberthynas â'r rhoddwr yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond o flwyddyn i flwyddyn bydd yn amrywio.

33. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld a oes gan y Llyfrgell Genedlaethol dargedau ar gyfer codi arian cyhoeddus a chawsom wybod gan Linda Tomos, y Llyfrgellydd Cenedlaethol:

“Yes, our longer-term strategy—once it became apparent about five or six years ago that austerity was going to begin to bite, we had to look at where we could generate non-Government sources of income. We've got limited potential for trading income, but we have been historically successful in attracting legacies. So, what we've done is use that legacy income, and invested it. It generates an income of about £300,000 a year for us now, and also, the capital gains, we can use that to as match funding for the BBC Heritage Lottery Fund archive funding. So, it's got benefits in terms of our long-term revenue income, and also capital funding.”¹⁹

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 126

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 238

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 239

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 248

34. I gloi, dywedodd Ms Tomos wrth y Pwyllgor y byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn gobeithio y byddai o leiaf £1 miliwn y flwyddyn yn dod o bob ffynhonnell incwm i'r Llyfrgell erbyn 2021. Dyna'r targed yn ei chynllun strategol.²⁰ Rydym yn pryderu ynghylch yr hyn sy'n ymddangos fel tybiaeth hunanfodlon y Llyfrgell Genedlaethol y bydd yn parhau i gael ei chyllid cyhoeddus.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell nad yw gwaith cynllunio ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn tybio'r lefel bresennol o gyllid cyhoeddus a'i bod yn mynd i'r afael â'r ystod o senarios, gan gynnwys gostyngiadau yn yr adnoddau sydd ar gael iddi.

Polisi cronfa wrth gefn/arian parod i'w gario ymlaen

35. Mynegodd y Pwyllgor nifer o bryderon gyda rhai sefydliadau ynglŷn â'u hymagwedd tuag at gynnal cronfeydd wrth gefn. Archwiliwyd yn gyffredinol yr hyn a ystyrir yn "lefel resymol o gronfeydd wrth gefn", ac ar gyfer y cyrff hynny sydd â Chrynodeb o'r Alldro Adnoddau, ariannu gwariant untro.

36. Hefyd, soniodd nifer o gyrff a noddir i'r Pwyllgor am y mater o gyfyngiad o 2 y cant o'r balansau arian parod y caniateir iddynt gario ymlaen gan Lywodraeth Cymru. Nodwn y bydd y fframwaith cyllidol newydd, yn benodol Cronfa newydd Cymru o 2018-19, yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gario hyd at £350 miliwn ymlaen o gyllidebau heb eu gwario neu refeniw treth dros ben uwchlaw'r rhagolygon. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru a gall lywio ystyriaethau ar gyfer y cyrff a noddir ganddi.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol ymagweddau tuag at bolisiau cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyrff a noddir ganddi, yn arbennig o ystyried yr hyblygrwydd gwell a roddir iddi yn sgil Cronfa newydd Cymru o 2018-19.

²⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 253

3. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

37. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2015-16 yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Mae'r Cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamed ar 18 Gorffennaf 2017.

38. Dyma'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon cyntaf a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd. Sefydlwyd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 1 Chwefror 2016 o dan Ran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf) ac felly mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod adrodd blynyddol arferol, sy'n cwmpasu 14 mis, o 1 Chwefror 2016 i 31 Mawrth 2017. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol i Lywodraeth Cymru, ond wedi'i ariannu ganddi.

39. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrfff cyhoeddus sy'n nodi bod yn rhaid iddynt wneud datblygiad cynaliadwy. Drwy wneud hynny, rhaid i gyrfff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion (amcanion llesiant) sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

40. O gofio mai dyma Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf y Comisiynydd, credai'r Pwyllgor fod gwerth mewn gweld a oedd gan y Comisiynydd unrhyw bryderon neu faterion wrth baratoi'r rhain ac i sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cyrraedd y safon a ddisgwylir gan Gorff Cyhoeddus.

Adroddiad Blynyddol (Adroddiad ar berfformiad)

41. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiynydd yn defnyddio ei hadroddiad blynyddol fel cyfle i wneud argymhellion i gyrfff cyhoeddus eraill. Eglurodd:

“...it flows, given that,...., the impact of what we do as an office will be, to a large extent, determined by what public bodies out there do. What I've tried to demonstrate in the annual report is that we're taking that to a certain point with those public bodies and now wanting to raise the need for those public bodies to take further action. ... So, I think it's important to be setting those out alongside the work that we're already doing in terms of what those public bodies—and the Government in that case—need to be doing to make sure that the Act is actually brought to life.”²¹

42. Canfu'r Pwyllgor fod hwn yn ddull diddorol o gyhoeddi adroddiad blynyddol, o gofio bod dogfennau o'r fath fel arfer yn canolbwyntio ar y sefydliad. Os yw'r

²¹ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 26

Comisiynydd yn bwriadu mesur ei pherfformiad drwy weithredu ei hargymhellion, yna gallwn weld y gwerth yn eu cynnwys yn Rhan 1 o'i Hadroddiad Blynyddol.

43. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch priodoldeb y Comisiynydd yn mesur ei pherfformiad dim ond mewn perthynas â gweithredu ei hargymhellion ac nad oedd ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17 wedi nodi ystod o wybodaeth sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, fel perfformiad ei swyddfa yn erbyn ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Nid ydym ychwaith yn glir ynghylch statws yr argymhellion hyn, a fydd y Comisiynydd yn asesu gweithrediad yn ystod ei gwaith a/neu a yw'r Comisiynydd wedi trafod ei dull gyda'r sefydliadau y mae hi wedi gwneud argymhellion iddynt ac a fydd ei swyddfa yn cael ymateb.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau blynyddol a chyfrifon yn y dyfodol am berfformiad ei swyddfa yn erbyn ei amcanion.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu ei hargymhellion i sefydliadau eraill mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol er mwyn gallu monitro'r gwaith o'u gweithredu.

Atebolrwydd

44. Derbyniodd y Comisiynydd £1.6 miliwn o gyllid yn ystod y cyfnod adrodd o 14 mis, ac roedd hyn yn cynnwys £30,000 drwy gostau sefydlu cychwynnol. Mae'r Comisiynydd yn nodi bod y gwariant net am y cyfnod yn £1.1 miliwn. Balans y gronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2017 oedd £454,000. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi y neilltuir y gronfa gyffredinol i dalu am gostau sefydlu parhaus Swyddfa'r Comisiynydd.

45. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Comisiynydd wedi mynd i gostau a oedd yn is na'r costau staff amcangyfrifedig oherwydd amserlenni recriwtio staff. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi y bydd y tanwariant yn cael ei ddyrannu yn 2017-18 i dalu am ddarn o waith 18 mis sy'n ymwneud â chanllawiau i gyrff cyhoeddus ar weithredu'r nodau llesiant. Mae'r Comisiynydd hefyd yn bwriadu cynnal lefel "resymol" o gronfeydd wrth gefn er mwyn ymgymryd ag unrhyw faterion brys a phwysig na chynlluniwyd ar eu cyfer ac a ddaw i sylw'r Comisiynydd, megis trafodion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol.

46. Archwiliodd y Pwyllgor gyda'r Comisiynydd beth oedd ystyr lefel "resymol" o gronfeydd rth gefn, ac eglurodd:

“I’ve got £30,000 in my budget this year, but I think it’s prudent to make that £130,000 in terms of contingency. And the reason for that contingency is around possible needs for reviews and interventions on issues that are coming up. Nobody knows exactly where those interventions may be needed but if, for example, I had to resource a significant review or intervention on, say, a major project that is coming forward, I would need to have that contingency in place.”²²

47. O ran a fyddai’r lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn gydnaws â’r nod o gael ymagwedd risg agored ac awyddus, fel yr amlinellir yn y datganiad llywodraethu, eglurodd y Comisiynydd ei bod yn teimlo bod hyn wedi dod i lawr i dorri brethyn yn unol â hynny a chydabod bod rhai pethau statudol y mae angen eu gwneud. Aeth ymlaen i ddweud a fyddai £130,000 yn ddigonol:

“It’s difficult to say—because we’re a new entity and the legislation itself is new—what sort of level of resource we might be required to keep into contingency for potential reviews and bearing in mind, I think you make a valid point, that actually there are a whole range of policies, initiatives, decisions that could potentially be reviewed.”²³

48. O ystyried y pwysau ar arian cyhoeddus, mae’r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y mater o “gronfeydd wrth gefn”. Mae’r dystiolaeth a glywsom gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yn awgrymu bod ei swyddfa yn dal tanwariant a allai neu na allai gael ei ddefnyddio.

49. Nododd y Pwyllgor fod ystadegau’r gweithlu yn dangos bod 23 y cant o staff yn ddynion a 77 y cant yn fenywod, gyda’r mwyafrif o weithwyr yn 35-54 oed. Mae’r adroddiad ar atebolrwydd hefyd yn dangos o’r 26 o gyflogeion, bod y mwyafrif (15) ar gontractau dros dro.

50. Holodd y Pwyllgor y Comisiynydd ynghylch a oedd yn bwriadu dibynnu ar secondiadau dros y hirdymor ac eglurodd:

“...it’s going to be an ongoing feature of my staffing structure. Currently, we have people on secondment from Welsh Government, from the fire service, from the children’s commissioner’s office—I’m trying to think of—. The probation service—. Sorry, I’m trying to think of the whole list; there are probably more, which I can update you on. I think that it’s a sensible approach to resourcing, because you draw in expertise that I wouldn’t

²² Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 36

²³ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 47

necessarily be able to resource solely on my own. You tend to draw in expertise and resource from the seconding organisation.”²⁴

51. Bu'r Pwyllgor yn archwilio'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, sef cael trosiant uchel o staff. Eglurodd y Comisiynydd fod corff craidd o staff sy'n goruchwyllo'r darnau allweddol o waith, ond bod y sefydliad yn gweithredu "risg awyddus" a bod:

"...the benefits that are brought and what our experience has been so far is not just the short-term benefit of, you know, you have a secondment of a year, that person then goes back to organisation X and that's the end of it. What we are finding in terms of these secondments is that they are building an ongoing relationship, which is really important in terms of us being able to draw on expertise, resource and knowledge from those organisations once that secondment has come to an end.”²⁵

52. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r dull hwn arwain at lawer o ganlyniadau cadarnhaol a byddai'n argymhell y dylid cynnal gwerthusiad o'r dull hwn mewn dwy flynedd i asesu'r effaith ar staffio ac effeithlonrwydd. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am lwyddiant neu fel arall y dull hwn.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gwerthuso'r gyfran uchel o secondiadau yn ei gweithlu o fewn dwy flynedd (Ionawr 2020) i ystyried a yw'n effeithio ar allbynnau ac effeithlonrwydd y sefydliad.

53. Amlinellodd y Comisiynydd yn ei hadroddiad y cynhelir ymgynghoriadau rheolaidd gyda'r tîm ynghylch datblygu sefydliadol a blaenoriaethau strategol a'i bod wedi:

"...experimented with a range of consultation and engagement mechanisms including monthly whole team meetings, weekly ten minute briefings, and specific sessions on organisational culture as well as using an all staff online chat facilities.”²⁶

54. Holodd y Pwyllgor y Comisiynydd ynglŷn â chanlyniadau'r gweithgareddau ymgysylltu hyn, ac eglurodd ei bod yn gosod y tôn a'r diwylliant cywir ac mewn gwirionedd yn gwneud yr hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud yn ei chynllun strategol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Comisiynydd i sicrhau

²⁴ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 76

²⁵ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 80

²⁶ **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2016 a 31 Mawrth 2017**

amgylchedd gweithio hyfyw ac agored, a byddai'n disgwyl i'r Comisiynydd hyrwyddo arfer da yn y maes hwn yn y dyfodol.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn dangos i'r Pwyllgor effaith yr amgylchedd gwaith hyfyw ac yn hyrwyddo unrhyw arfer da y mae'n ei nodi.

Taliadau

55. Penodwyd y Comisiynydd ar 1 Chwefror 2016, gydag uwch-aelodau eraill o staff wedi'u penodi rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016. Amlinellir y penodiadau hyn ar dudalen 32 yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Amlinellir y taliadau a'r buddion pensiwn ar gyfer yr uwch dîm (cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil) ar dudalennau 32 a 33, ac maent yn dangos y gwahaniaethau yn y bandiau cyflog ar gyfer Cyfarwyddwyr.

56. Cwestiynodd y Pwyllgor pam yr ymddengys fod y Cyfarwyddwr Polisi a Gweithredu ar fand cyflog sylweddol wahanol i aelodau eraill yr uwch dîm. Eglurodd y Comisiynydd fod y Cyfarwyddwr Polisi a Gweithredu ar y cyflog uwch gan fod ganddo fwy o gyfrifoldeb o ran ei swyddogaethau statudol, sy'n ymwneud â rhoi cyngor a chymorth a monitro ac asesu cyrff cyhoeddus. Talwyd y cyfarwyddwyr eraill i gyd ar yr un lefel. Eglurodd Helen Verity, Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fod y ffigurau cyfwerth ag amser llawn yn y cyfrifon yn adlewyrchu'r cyflogau y byddent wedi'u talu pe byddent yn y swydd dros gyfnod o 12 mis llawn er mwyn cymharu, ond bod y ffigurau hefyd yn adlewyrchu patrymau gweithio rhan-amser dau gyfarwyddwr yn hytrach na'r cyflog cyfwerth ag amser llawn. Ymgwymerodd Ms Howe i egluro hyn yn well yn y dyfodol, gan iddi gydnabod ei fod yn ddryslyd.

57. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi'r swm a dalwyd neu sy'n daladwy i gyfarwyddwyr am y cyfnod cyfrifyddu. Er mwyn sicrhau tryloywder a gallu cymharu ar draws staff o fewn sefydliadau ac ar eu traws, mae'n arfer da nodi'r cyfwerth ag amser llawn, a lle bo hynny'n briodol, cyfwerth â blwyddyn llawn. Nid oedd yr eglurhad am y gwahaniaeth yn y ffigurau hyn yn glir, ym marn y Pwyllgor a chredwn ei bod yn bwysig bod taliadau uwch-aelodau o staff a chyfarwyddwyr yn dryloyw ac yn hawdd eu deall.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ailymweld â'r syniad o ddatgelu taliadau ar gyfer uwch-aelodau o staff, gan sicrhau ei fod yn nodi gwybodaeth i alluogi cymhariaeth uniongyrchol o lefel y taliadau a dalwyd i'r cyfarwyddwyr o fewn Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac a gyflogir gan gyrff eraill.

4. Llywodraeth Cymru

58. Llywodraeth Cymru yw un o'r ddau sefydliad a wahoddir yn flynyddol (ynghyd â Chomisiwn y Cynulliad) ar gyfer archwiliad o gyfrifon gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a dyma'r bedwaredd flwyddyn y mae cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru wedi'u harchwilio. Mae'r Cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamed ar 3 Awst 2017.

59. Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Dyma'r cyntaf i'w cyflwyno a'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Shan Morgan, a ddechreuodd yn ei swydd yn Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017.

60. Ar ôl craffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16,²⁷ gwnaeth y Pwyllgor saith argymhelliad a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'i weithgareddau ei hun. Yn ogystal ag argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor i bob sefydliad ar draws y sector cyhoeddus (Argymhelliad 1), gwnaeth y Pwyllgor bedwar argymhelliad hefyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i gwaith gyda sefydliadau eraill. Mae'r holl argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad **Craffu ar Gyfrifon 2015-16**²⁸. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o falch o nodi bod yr argymhelliad ar ganran caffael Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd i gwmnïau o Gymru wedi'i weithredu yn yr adroddiad blynyddol, a byddwn yn monitro'r lefel hon yn y dyfodol.

61. Roedd Argymhelliad 11 yn yr adroddiad ar gyfrifon 2015-16 yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dulliau diogelu ar waith i atal twyll gan sefydliadau allanol sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru.

62. Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yr Archwilwyr Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad o drefniadau goruchwyllo fel rhan o'u rhaglen waith ar gyfer 2017-18, gan nodi:

“The Terms of Reference for this review are yet to be defined, but Internal Audit expects to look at oversight arrangements from a whole-Welsh Government procedural perspective first, followed by the selection of specific grant giving areas to study practice in greater depth. To ensure as broad a view as possible, assurance will also be taken from other existing audit arrangements covering grant giving, for example, the European

²⁷ **Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 (Saesneg yn unig)**

²⁸ **Craffu ar Gyfrifon 2015-16**

Funding Audit Team audits of EC grants recipients and any relevant WAO studies such as the proposed study of grants to Welsh businesses.”²⁹

63. Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru ynghylch cynnydd mewn perthynas â'r gwaith archwilio mewnol hwn. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y gwaith hwn yn y rhaglen waith archwilio mewnol ar gyfer 2017-18, ac roedd i fod i gael ei wneud yn y pedwerydd chwarter, gan egluro:

“...in the meantime, all of our normal assurance processes continue. We have the external assurance panel, which meets regularly, to look at lessons from individual cases, and we have a grants centre of excellence now, which is designed to identify and spread good practice across the organisation. So, I'm just saying that that particular piece of work, by internal audit, will take place within the framework of a lot of work and structures, to try and drive continuous improvement of our work in that area.”³⁰

64. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch y prosesau sy'n ymwneud â dyrannu grantiau o fewn Llywodraeth Cymru. Credwn fod hwn yn faes lle bu problemau sylweddol o'r blaen ac felly rydym yn croesawu'r ffaith y bydd hyn yn destun mwy o waith craffu mewnol ac allanol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gwaith Archwilio Mewnol cyn i'r Pwyllgor graffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, gan ein galluogi i roi ystyriaeth ddyledus i'r cynnydd cyn inni ystyried y cyfrifon yn fanwl ym mis Medi 2018.

65. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y trefniadau a roddwyd ar waith i gryfhau'r systemau o ran gweinyddu taliadau teithio rhatach, yn unol ag argymhelliad 12 yn yr adroddiad ar graffu ar gyfrifon 2015-16. Amlygodd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru fod y materion sy'n ymwneud â thaliadau teithio rhatach yn codi oherwydd nad oedd y systemau priodol ar waith o'r dechrau.

66. Bu'r Pwyllgor yn archwilio a oedd hyn yn arwydd o broblem ehangach yn ymwneud â sgiliau o fewn Llywodraeth Cymru, yn yr adran drafnidiaeth yn benodol. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn myfyrio nad oedd wedi gweld dim a oedd yn

²⁹ Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2015-16, 1 Chwefror 2017

³⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 135

gwneud iddi amau'r sgiliau sydd gan yr adran drafnidiaeth a'r dull y mae'n ei ddefnyddio.³¹

67. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol hyder yn staff yr adran drafnidiaeth, ond mae hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i bawb wella eu sgiliau a bod hyn yn cael sylw drwy'r ymarfer diogelu yn y dyfodol.³²

Rheoli perfformiad

68. Yn ystod y sesiynau blaenorol yn craffu ar y cyfrifon, bu'r Pwyllgor yn pryderu am effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad o fewn Llywodraeth Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd y Pwyllgor yn flaenorol yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gwael, a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli'n gadarn.

69. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwnnw y gwnaed newidiadau i'w gweithdrefnau rheoli perfformiad ar ddechrau blwyddyn adrodd 2016-17, gyda'r nod o'r newidiadau hyn yn sicrhau trafodaethau mwy ystyrlon rhwng cyflogeion a rheolwyr ynghylch perfformiad a datblygiad. Roedd y newidiadau hyn yn gyson â datblygiadau ar draws y Gwasanaeth Sifil ehangach a byddent yn cael eu hadolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf o'u gweithredu.

70. Holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn a chafodd wybod am ei menter newydd, a elwir yn "diogelu yn y dyfodol", sef:

"... an internal initiative to improve the skills and the systems for staff within the Welsh Government. And, as part of that, there is work under way on how we can tighten up our performance management system, our talent management and our promotion systems. Because, at the moment, I think the basics are there, but I think that, in the context of the new challenges that we're facing for the future, with Brexit, resource constraints, we can actually do better. So, that's a big part of the futureproofing initiative that I'm taking forward, but building very much on the work that Derek [Jones, former Permanent Secretary] had already done, and what was already in place."³³

71. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio'r maes hwn ymhellach a chael sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod perfformiad gwael yn cael ei reoli'n effeithiol o fewn Llywodraeth Cymru. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn

³¹ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 249

³² Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 249

³³ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 140

edrych ar brosesau rheoli perfformiad a'i bod wedi sefydlu grwpiau i ystyried gwahanol agweddau ar yr angen hwnnw, a fydd yn adrodd yn ôl iddi, gyda'r nod y bydd gan Lywodraeth Cymru system newydd ar waith erbyn dechrau'r flwyddyn rheoli perfformiad nesaf sy'n dechrau ym mis Ebrill.

72. Ailgadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

“I can assure you that I am somebody who, during my career, has seen things through right to the bitter end. I agree it's a long process, but I think it's something that we need to do. We need to be robust and rigorous. And equally, with the bulk of people, we need to make sure that we are encouraging them to make the most of their skills. So, I do want a more rigorous performance management system that will give people some very clear messages about where they're underperforming and what the next steps will be.”³⁴

73. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd hyd yma gan yr Ysgrifennydd Parhaol i sicrhau bod y system rheoli perfformiad yn cael ei defnyddio'n briodol. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu bod angen gwneud mwy i reoli perfformiad gwael a hoffem gael mwy o sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod y system rheoli perfformiad sydd ar waith yn nodi perfformiad gwael yn briodol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir sut y mae ei systemau Rheoli Perfformiad yn gadarn ac yn cynhyrchu canlyniadau pendant.

Atebolrwydd

74. Mae'r Adroddiad ar Atebolrwydd yn cynnwys yr Adroddiad ar Daliadau a Staff, sy'n nodi Datganiad ar Bolisiau Tâl Llywodraeth Cymru, sef:

“Yn unol â'r egwyddorion ‘Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru’ a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar bolisiau tâl ar ei gwefan.”³⁵

Mae'n ofynnol i'r datganiad polisiau tâl nodi nifer yr uwch-swyddi o fewn Llywodraeth Cymru sydd â pheccyn taliadau sy'n fwy na £100,000.

³⁴ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 154

³⁵ [Cyfrifon Cyfunol 2016-17 Llywodraeth Cymru](#), tudalen 40

75. Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru ynghylch a fu unrhyw newidiadau ers 2015-16 i nifer y staff sy'n ennill dros £100,000. Dywedodd Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor:

“During the accounting period. There are likely to have been some additional staff appointed in excess of £100,000. I don't have the figure to hand, but I'm more than happy to report back on that.”³⁶

Yn dilyn hyn, darparodd Llywodraeth Cymru y wybodaeth hon mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor.³⁷

76. Er budd tryloywder, cred y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gynnwys y wybodaeth am newidiadau i nifer y staff sy'n ennill dros £100,000 o fewn blwyddyn yn eu cyfrifon cyfunol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer yr holl staff yn Llywodraeth Cymru sy'n ennill dros £100,000 o fewn blwyddyn yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru yn ogystal â'u cynnwys yn y polisi tâl a gyhoeddir ar wahân. Rydym yn argymhell y cyhoeddir y wybodaeth hon ar yr un pryd â'r cyfrifon archwiliedig.

Mecanweithiau cyllidebu

77. Mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig (tudalennau 53 i 55) yn nodi bod alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 o fewn ei chyllideb gymeradwy ar gyfer ei holl Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Roedd alldro Llywodraeth Cymru yn dangos tanwariant. Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw gamau penodol sydd eu hangen i liniaru digwyddiadau'r dyfodol o'r tanwariant sylweddol yn erbyn y gyllideb. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y wybodaeth yn eithaf dryslyd, yn ei barn hi, ond:

“... the key point I need to make immediately is that what's shown as a variance is not lost to Wales. It's not an underspend that we then lose. It is carried forward. And, in fact, the overall variance is within 1.5 per cent of the total budget, which I think is very low, given the complexity and range of our business.”³⁸

78. Ychwanegodd:

³⁶ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 217

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-28-17PTN1, 6 Tachwedd 2017

³⁸ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 254

“The largest variance there is the health budget. That table showing the ambit reports an underspend or a variance of £84 million, whereas, in fact, the resource account budget shows an underspend of only £7 million. And it reflects the difference between resource accounting and cash accounting.”³⁹

79. Mae'r Pwyllgor yn ystyried hyn fel mecanwaith cyllidebol cymhleth iawn, nid yw cyflwyno'r wybodaeth fel hyn yn helpu tryloywder ac i'r perwyl hwn rydym yn croesawu'r sicrwydd a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystod y cyfarfod, sef bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei symleiddio ar gyfer cyfrifon blwyddyn nesaf.⁴⁰

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod datgeliadau yn y datganiadau ariannol ar gyllideb ac alldro Llywodraeth Cymru yn glir ac yn dryloyw.

³⁹ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 258

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 260

5. Chwaraeon Cymru

Cefndir

80. Dyma'r ail dro i'r Pwyllgor graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Chwaraeon Cymru,⁴¹ ar ôl cael eu harchwilio'n flaenorol yn 2014-15.⁴² Mae'r Cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamedod ar 18 Gorffennaf 2017.

81. Yn dilyn pleidlais unfrydol o ddim hyder yn y Cadeirydd blaenorol gan y Bwrdd ar 23 Tachwedd 2016, ataliodd Llywodraeth Cymru weithgareddau'r Bwrdd. Yn dilyn adolygiad o sicrwydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, cafodd gweithgareddau'r Bwrdd eu hailosod gan y Gweinidog ar 14 Chwefror 2017.

Mesur perfformiad a gwerthuso

82. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn sut y mae Chwaraeon Cymru yn mesur effeithiolrwydd ei arian ar gyfer chwaraeon, a gwerth am arian cyffredinol Chwaraeon Cymru. Eglurodd Prif Weithredwr Chwaraeon Cymru, Sarah Powell, wrth ystyried gwerth am arian, y rhoddir ystyriaeth i wneud iawn am fuddsoddiad, sy'n cynnwys edrych ar niferoedd meintiol megis nifer yr hyfforddwyr a'r cyfranogwyr. Eglurodd Ms Powell:

“We'd also look at equality breakdown, so gender, look at black and minority ethnic, and look at disability. So, that's on a numbers return for the investment, but we're also trying to look at a much wider piece of work around economic impact and social impact, and that's quite difficult, I have to say. That's something that I think we would like to work on with other parts of the public sector, to look at how we can have a consistent way of measuring impact. Sport is much more than just numbers. So, yes, of course the numbers that participate are important, but also mental health, how people feel when they take part in sport, and the economic impact.”

83. Yn ei Adroddiad Blynyddol⁴³, mae Chwaraeon Cymru yn rhoi manylion am y prif fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â chwaraeon a ddefnyddir, sy'n cynnwys:

- canran y bobl yng Nghymru sydd “wrth eu bodd â chwaraeon”;

⁴¹ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-2017](#)

⁴² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Craffu ar Gyfrifon 2014-15](#), Rhagfyr 2015

⁴³ [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-2017](#)

- canran y bobl sy'n aelod o glwb Chwaraeon; a
- chanran y bobl sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon (15+ mlynedd).

84. Mae'r ystadegau a gynhyrchwyd gan Chwaraeon Cymru yn dangos bod y ganran o bobl ifanc 7-16 oed sydd "wrth eu bodd â chwaraeon" wedi cynyddu o 27 y cant yn 2011 i 48 y cant yn 2015.

85. Yn benodol, o ran y gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru gyda phobl ifanc, cwestiynodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y prosiect 5x60 mewn awdurdodau lleol ac ysgolion.⁴⁴ Eglurodd Ms Powell nad oedd unrhyw werthusiad o'r rhaglen wedi digwydd hyd yma a'i fod ar eu cylch gwaith i werthuso'r Rhaglenni 5x60 a Champau'r Ddraig gyda'i gilydd.⁴⁵

86. Mynegodd y Pwyllgor bryderon nad oedd y prosiect 5x60, sydd wedi bod yn rhedeg ers tua 10 mlynedd, a Rhaglen Campau'r Ddraig, sydd wedi bod yn rhedeg am 15 mlynedd, wedi bod yn destun gwerthusiad. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, eglurodd Chwaraeon Cymru:

"An implicit part of our way of working is to learn and evaluate, whether this is through formal evaluations or in more informal ways. We have continually looked to review and evolve our approaches. From the feedback and research undertaken we have now developed a more holistic approach and have developed a "**Physical Literacy Journey**" as opposed to bespoke age-specific programmes. This reflects the changes we have made in approach following several independent and internal reviews and evaluations of the programmes which are highlighted in the attached document."⁴⁶

87. Cafodd y Pwyllgor hefyd wybod bod Chwaraeon Cymru wrthi'n tendro ar gyfer sefydliad i gynnal adolygiad o'i Raglenni Pobl Ifanc. Bydd yr adolygiad hwn yn eistedd ochr yn ochr ag adolygiad ategol o'r Fenter Nofio Am Ddim (sy'n cynnwys cynnig ar gyfer pobl ifanc o dan 17 oed).

88. Mae'r ohebiaeth hefyd yn nodi bod gan Chwaraeon Cymru, fel gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, adnodd sy'n lleihau a bydd angen sicrhau bod gan y ddarpariaeth yn y dyfodol fwy o gynaliadwyedd. Bydd y gwerthusiad yn helpu Chwaraeon Cymru i ddeall a yw ei raglenni wedi cyflawni ei ganlyniadau a nodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc pan gyflwynwyd hwy gyntaf (neu ers iddynt gael eu diwygio), ac a allant gael mwy o effaith ar lefelau cyfranogiad chwaraeon a

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 51

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 52

⁴⁶ **Gwybodaeth ychwanegol gan Chwaraeon Cymru. 1 Tachwedd 2017**

gweithgarwch corfforol. Bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn helpu i lunio a llywio strategaeth a chynigion Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

89. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod prosiectau wedi gallu rhedeg am gyfnod sylweddol o amser heb unrhyw werthusiad, yn enwedig yn y sefyllfa economaidd bresennol, gyda chaledi parhaus a phwysau ar arian cyhoeddus. Credwn ei bod yn hanfodol bod prosiectau a ariennir yn gyhoeddus yn cael eu gwerthuso'n llawn er mwyn sicrhau bod y canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â gwerth am arian.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Chwaraeon Cymru yn rhannu canlyniad y gwerthusiad o'i Raglenni Pobl Ifanc gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w hystyried.

90. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch effaith toriadau caledi awdurdodau lleol ar chwaraeon cymunedol. Er enghraifft, holi faint o gaeau chwarae a roddwyd i drosglwyddiadau asedau a'r effaith a gafodd hyn ar dimau pêl-droed cynghrair lleol sy'n bryderus bod cyfleusterau'n cael eu tynnu oddi wrth glybiau llawr gwlad. Cwestiynodd y Pwyllgor hefyd y pwyslais cynyddol a roddir ar gaeau 3G y gall eu ffioedd atal defnyddwyr rhag cael mynediad atynt.⁴⁷

91. Eglurodd Ms Powell yr angen i sicrhau bod y cyfleusterau cywir yn y manau cywir, gan ychwanegu:

"You'll be aware that we launched a 'Facilities for Future Generations' document, which was there to advise and guide local authorities on the facilities that they should be looking to maintain and keep, and any considerations for future build of facilities. The cost of facilities is not within our gift, as you're aware, but it is something that we are always looking to make sure is appropriate if we are going to achieve what we're trying to achieve and to get the nation more active."⁴⁸

92. Dilynodd y Pwyllgor y mater hwn gan fod llawer o gaeau yn cael eu gwaredu neu nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd na all awdurdodau lleol eu cynnal. Roeddem yn pryderu, er nad yw cost cyfleusterau o fewn cylch gwaith Chwaraeon Cymru, ei fod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu caeau 3G, sy'n ddrud i'w cynnal, ac sydd â chostau mynediad uchel i'w defnyddio. Gofynnwyd i Ms Powell a oedd yn teimlo bod unrhyw wrthdaro rhwng y ddau safbwynt.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 63

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 64

93. Eglurodd Ms Powell mai safbwynt Chwaraeon Cymru mewn perthynas â chaeau 3G yw y byddant yn dod â nifer o chwaraeon at ei gilydd ac ystyried yn strategol lle y dylid adeiladu'r cyfleusterau hynny. Ychwanegodd:

“But alongside that, the criteria of any funding that we’ve provided to those 3G facilities are about tackling some of the inequalities and making sure there is an approach to gender balance using those facilities. But with regard to pricing policies, I think that’s a discussion that we need to continually have with local authorities.”⁴⁹

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru yn monitro'r effaith a gaiff hyrwyddo caeau 3G ar fynediad at gaeau sy'n eiddo i awdurdodau lleol, gan rannu canlyniadau'r gwaith monitro hwn â'r Pwyllgor, a gweithio i sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod mor hygyrch â phosibl i bawb.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Chwaraeon Cymru yn ceisio hyrwyddo a diogelu mynediad i bawb at yr holl gyfleusterau chwaraeon sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

Risgiau

94. Mae Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru yn nodi nifer o risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad gyda'r risg fwyaf arwyddocaol yr effaith a gaiff toriadau parhaus ar wariant cyhoeddus. Mae risgiau allweddol eraill a nodwyd ar y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno strategaethau ac amcanion cymunedol, elitaidd a gwasanaethau corfforaethol.

95. Roedd y Pwyllgor yn synnu nad oedd y risgiau a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys materion o ran llywodraethu o ystyried y digwyddiadau diweddar yn Chwaraeon Cymru, gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y sefydliad yn cael eu tynnu o'u swyddi gan Lywodraeth Cymru.

96. Eglurodd Ms Powell fod Chwaraeon Cymru wedi diweddarau ei gofrestr risg yn ystod y flwyddyn flaenorol ac am gyfnod o amser roedd llywodraethu wedi'i nodi fel risg, gan ychwanegu:

“As for myself, as the accounting office, it was my imperative to make sure that governance was in place during that period. I work very closely with the Welsh Government. As soon as the vote of no confidence had been taken, I was in touch, within 24 hours, with the additional accounting officer to make sure we had in place the right governance during the period where the board was suspended. Rwy'n credu ei fod yn brawf llwyr,

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 66

ac fe'i rhoddaf ar gofnod, i broffesiynoldeb ac ymroddiad y staff yn Chwaraeon Cymru am sut maen nhw'n parhau i ganolbwyntio ar y gwaith, ac yr ydym i gyd wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r swydd . For me, my focus has been on the executive and making sure that Sport Wales has continued to deliver what is required of it.”⁵⁰

97. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan Ms Powell nad oedd risg ar hyn o bryd yn deillio o lywodraethu. Eglurodd ei bod wedi derbyn sicrwydd sylweddol gan archwilwyr mewnol ac allanol o'r trefniadau llywodraethu sydd gan Chwaraeon Cymru ar waith.⁵¹ Cadarnhaodd:

“I do not believe it is any more of a risk than it is to any other public sector organisation. I believe we have all the right processes.”⁵²

98. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod Ms Powell wedi nodi ei bod wedi derbyn sicrwydd sylweddol gan archwilwyr allanol, rydym yn ymwybodol bod rôl yr archwiliwr allanol mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon wedi'i gyfyngu i roi sylwadau ar p'un a yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

99. Un o'r risgiau allweddol eraill a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru yw talu'r gost gynyddol ar gyfer taliadau diffyg pensiwn. Bu'r Pwyllgor yn archwilio pa gamau a gymerwyd gan Chwaraeon Cymru i reoli cost gynyddol y cynllun pensiwn, gan fod y cynnydd yn y diffyg cronfa pensiwn oddeutu £2 filiwn.

100. Eglurodd Ms Powell nad oedd y diffyg pensiwn yn fater i Chwaraeon Cymru yn unig ond yn broblem ar draws y sector cyhoeddus ond roedd Chwaraeon Cymru wedi cynllunio ar gyfer y diffyg, gan egluro:

“In terms of the share of the pension deficit, you'll have no doubt noticed that that £12 million pension deficit—we've split that 76 per cent Welsh Government and 24 per cent lottery, and that specific apportionment is based on a rolling average, right back to the inception of the lottery in 1994. So, we ask staff for their percentage every year, and we take a rolling and ongoing average over that period. That's specifically for the deficit and the lump-sum payment that you'll have noticed that we also pay into the pension fund in order to reduce that. So, we're quite comfortable that that's a fairly robust way. Clearly, it's subject to audit, and our audit

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 184

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 186

⁵² Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 188

colleagues have more than accepted the methodology that we utilise in order to get to that percentage.”⁵³

101. Wrth archwilio’r mater hwn ymhellach, eglurodd Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol:

“...following the triennial valuation in 2016, the actuary has given us three years employers’ rate and lump-sum payments that we have to pay for this year, next year and the year after. The board are aware of that. We factored it in for the 2017 budget this year, and we will factor it in to the two future years.”⁵⁴

102. O ran mathau eraill o liniaru, eglurodd Mr Curran fod Chwaraeon Cymru yn mabwysiadu dau ddull pellach. Yn gyntaf, cynnig aelodaeth o gynllun gwahanol, sef cynllun cyfraniad diffiniedig; ac yn ail, adolygiad o’r cynllun buddion diffiniedig y mae’r rhan fwyaf o staff yn Chwaraeon Cymru yn aelodau ohono.

Llywodraethu a thryloywder

103. Caiff Chwaraeon Cymru ei lywodraethu gan Fwrdd sy’n cynnwys cadeirydd, is-gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall y mae pob un ohonynt yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o groestoriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau ag arbenigedd a phrofiad sy’n berthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, fel ei gilydd.

104. Holodd y Pwyllgor Chwaraeon Cymru ynghylch a yw’r disgrifiad presennol o fframwaith llywodraethu Chwaraeon Cymru yn hawdd ei ddeall ac yn dryloyw ac a oedd unrhyw gynlluniau i’w newid.

105. Eglurodd Ms Powell i’r Pwyllgor fod fframwaith llywodraethu Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn tair ffordd:

“The first looks at our board. So, the first element of our governance relates to our board and our audit and risk committee. The second pillar of this, with the board—the second pillar of this, I would say, looks at our management and directors’ team; and then the final pillar of our governance would look at external assurance, which we would gain from WAO or our internal auditors. Those three pillars of our governance work together to provide me with the right assurances. Alongside that, we would also have documents that provide me with assurance through our risk register, our risk management and our policies and procedures. So, in

⁵³ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 136

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 140

terms of the governance structure, I believe it provides me with the right assurances and it provides, therefore, the organisation with the right assurances.”⁵⁵

106. Barn y Pwyllgor yw ei bod yn bwysig bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn rhoi disgrifiad clir o'r trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y fframwaith llywodraethu, y trefniadau atebolrwydd a'r llinellau adrodd ar gyfer pwyllgorau ac is-grwpiau. Drwy wneud hynny, dylai wahaniaethu rhwng y strwythurau, systemau a phrosesau mewnol sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r sefydliad a'r sicrwydd a ddarperir gan ei wasanaeth archwilio mewnol o unrhyw ganfyddiadau gan ei archwilwyr allanol. Mae gwasanaeth archwilio mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yn un o elfennau allweddol llywodraethu da a chaiff ei waith ei wneud yn bennaf er budd y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd. Nid yw hyn yn wir am waith yr archwilydd allanol ac felly nid yw'n rhan o drefniadau llywodraethu sefydliad.

Caffael

107. Mae adroddiad blynyddol Chwaraeon Cymru yn nodi y cynhaliwyd dau adolygiad i weithgareddau caffael yn 2016-17. Cynhaliodd Deloitte, yr archwilwyr mewnol, adolygiad i gaffael ymgynghorwyr. Adroddwyd yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mawrth 2017. Fel rhan o'i gwaith diwedd blwyddyn, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad ar wahân i gaffael. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi fel a ganlyn:

“Both reviews identified a number of recommendations for improvement, which have since been implemented and the financial procedures have been updated to reflect the findings/recommendations. The updated financial procedures have also been circulated to all staff.”⁵⁶

108. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio'r materion a amlygwyd gan y gwaith archwilio mewnol a wnaethpwyd gan Deloitte ac yn arbennig y canfyddiadau bod Chwaraeon Cymru wedi rhoi manyleb ar gyfer tendr i ymgynghorydd ddeuddydd cyn y cystadleuwyr. Mater, ym marn Deloitte, a allai fod wedi niweidio enw da Chwaraeon Cymru. Gofynnwyd i Chwaraeon Cymru am ei safbwyntiau ar y mater hwn a chafwyd sicrwydd gan Ms Powell:

“This is a matter for myself and that I took an action that I shouldn't have taken, and I have made sure that that doesn't happen again. The scale

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 86

⁵⁶ **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-2017**

and size of it is not the issue here; it's about following procedures. The procedures have been updated and I need to follow procedures."⁵⁷

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 111

6. Comisiwn y Cynulliad

109. Dyma'r bedwaredd flwyddyn y bu'r Pwyllgor yn craffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamed ar 20 Gorffennaf 2016. Mae'r Cyfrifon ar gyfer 2016-17 yn cwmpasu'r cyfnod union cyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, cyfnod cynefino Aelodau hen a newydd y Cynulliad, sefydlu Comisiwn newydd y Cynulliad a chyflwyno strategaeth a blaenoriaethau newydd. Dyma hefyd y flwyddyn gyntaf yr ymgwymerodd Elin Jones AC a Manon Antoniazzi â'u swyddogaethau fel y Llywydd a'r Prif Weithredwr a'r Clerc ym mis Ebrill 2017.

Gwefan y Cynulliad

110. Un o'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y Pumed Cynulliad yw sicrhau bod y seilwaith TGCh yn gallu gwrthsefyll methiant yn well ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd gennym ni o ran defnyddio "gwasanaethau cwmwl". Mae hyn er mwyn galluogi mynediad at wasanaethau ni waeth beth fo'r lleoliad neu'r ddyfais a ddefnyddir.

111. Yn flaenorol, mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch hygyrchedd a pha mor hawdd i'w defnyddio yw gwefan y Cynulliad, yn enwedig o gofio pwysigrwydd gwybodaeth ar-lein i ymgysylltu â'r cyhoedd. Nododd y Pwyllgor ym mis Chwefror 2016 fod y Comisiwn yn cydnabod er bod achosion o arfer da, mae ymagwedd gyfredol y Cynulliad tuag at fod yn ddigidol yn dameidiog ac yn annigonol.⁵⁸

112. Amlygodd cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19 "manteisio ar dechnoleg i drawsnewid y drefn o ddarparu gwasanaethau" fel her allweddol. Mae'r gyllideb yn disgrifio rhaglen o brosiectau o dan yr enw "FySenedd", sy'n ceisio gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chreu, ei rhannu, ei rheoli a'i hecsbloetio i ddarparu gwasanaethau gwell i'r Aelodau a'r cyhoedd.

113. Ymchwiliodd y Pwyllgor i'r cynnydd a wnaed wrth wneud gwefan y Cynulliad yn fwy hygyrch ac yn haws i'w defnyddio i'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Eglurodd Suzy Davies AC fod gwaith ailgynllunio wedi'i wneud o dudalen hafan y Cynulliad a chynnwys "dewislen fawr" sy'n ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr lywio eu ffordd drwy'r wefan. Tynnodd Ms Davies sylw at y ffaith bod tudalennau bywgraffiad yr Aelodau wedi'u gwneud yn fwy hygyrch ac roedd templedi newydd yn cael eu defnyddio i wneud gwybodaeth yn fwy atyniadol yn weledol. Fodd bynnag, mae'r

⁵⁸ **Ymateb Comisiwn y Cynulliad i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Craffu ar Gyfrifon 2014-15**

prif newid wedi'i wneud i Gofnod y Trafodion, fel rhan o'r rhaglen FySenedd ehangach. Eglurodd Ms Davies fod hyn yn golygu:

“The ability to search the Record of Proceedings is already better that it was a year ago, and quite a lot of attention in 2016-17 has gone into that.”⁵⁹

Llywodraethu

114. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi ein bod wedi gweithio i sefydlu “llynyn” cynllunio sy'n rhedeg o'r strategaeth a'r nodau, drwy ein blaenoriaethau corfforaethol ac i'n gwaith o gynllunio gwasanaethau a chapasiti. Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg⁶⁰ a Phwyllgor Taliadau. Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad mis Mai 2016, mabwysiadodd y Comisiwn newydd **gyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol**.

115. Bu'r Pwyllgor yn archwilio'r newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Comisiwn a'r risgiau y mae'n eu rheoli. O gofio bod Prif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Cynulliad wedi derbyn swydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn berthnasol iddi, gwnaethom holi pa sicrwydd sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gafodd gan ei rhagflaenydd.⁶¹

116. Nododd Ms Antoniazzi nifer o drefniadau trosglwyddo a roddwyd ar waith rhyngddi hi a'i rhagflaenydd, gan egluro:

“My predecessor played a key role in the drafting of the governance statement, and in fact submitted that to ACARAC, the Commission’s audit committee, before she departed so that, when I arrived, I could have an element of assurance that she was content. However, I assume personal responsibility for signing the accounts, and therefore what I have done is drawn on those same sources of assurance that she drew upon: assurance at operational level from directors, from ACARAC, the audit committee and the Commission itself, and, indeed that management letter that was provided by the Wales Audit Office.”⁶²

117. Cwestiynodd y Pwyllgor yr heriau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â threfniadau llywodraethu Comisiwn y Cynulliad ac eglurodd Ms Antoniazzi fod Comisiwn y Cynulliad yn wynebu nifer o newidiadau sydd i ddod na ellid eu rhagweld ar hyn o bryd, gan ychwanegu:

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 242

⁶⁰ **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

⁶¹ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 270

⁶² Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 271

“We have changes constitutionally, we have legislative changes coming through, we have an increasing focus on engaging with the people of Wales and with advocating the Assembly. So, there are a lot of wonderful initiatives under way. They absorb resources. I think the main challenge this year, recognising the constraints that there are on public spending, is to make sure that the resources are maximised and best placed to respond to all of those needs. We are facing a very tight year this year.”⁶³

118. Dywedodd Ms Antoniazzi wrth y Pwyllgor mai goruchwylio rheolaeth ariannol dynn wrth ymateb i anghenion Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn ehangach yw'r brif her a risg.

119. Nododd y Pwyllgor fod Datganiad Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad yn amlygu risg a phwysau sylweddol i reoli gwaith sy'n mynd rhagddo, a gwaith sy'n dod i'r amlwg a chynlluniau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, newid digidol, Senedd leuencid a diwygio etholiadol. Gwnaethom gwestiynu sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu blaenoriaethu adnoddau rhwng y prosiectau a'r blaenoriaethau hyn.

120. Eglurodd Ms Antoniazzi fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi fframwaith y blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn yng nghyd-destun y blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer pum mlynedd y Cynulliad. At hynny, eglurwyd fod Bwrdd Adnoddau a Buddsoddi Comisiwn y Cynulliad, a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac sydd â chynrychiolaeth o Gyfarwyddwyr arno, wedi bod yn edrych ar ffyrdd y gellir cymryd agwedd fwy systematig i flaenoriaethu adnoddau. Ychwanegodd:

“We are piloting a system at the moment, where various values are weighted to enable us to make fine discriminations between the various priorities that exist. Obviously, we have given absolute priority to statutory duties, to health and safety, to business continuity, and then beyond that, it is a matter of ongoing dialogue between the investment and resources board and the Commission on one hand, which is the body charged with giving us the steer, and on the other hand with our heads of service, who keep us informed of the ongoing pressures on business and the constraints on their ability to deliver.”⁶⁴

121. Cyfeiriodd Ms Antoniazzi hefyd at adolygiad parhaus Comisiwn y Cynulliad o gapasiti sy'n canolbwyntio ar y gyllideb staff, sef yr elfen fwyaf o gyllideb y Comisiwn. Eglurodd fod yr adolygiad wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol iddi o ran gallu

⁶³ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 273

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 275

cymryd cam yn ôl ac edrych ar sut y mae adnoddau'n cael eu defnyddio ar draws y sefydliad, sut y mae hynny wedi digwydd yn hanesyddol a manteisio ar yr holl arbenigedd a'r holl wybodaeth sydd gan staff y Comisiwn, asesu a yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr y gwasanaethau hynny.⁶⁵

122. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am ffocws Comisiwn y Cynulliad ar adnoddau staffio fel rhan o'r adolygiad parhaus o gapasiti a holwyd Ms Antoniazzi ynghylch a oedd ganddi unrhyw bryderon bod lefel staffio Comisiwn y Cynulliad yn rhy hael.

123. Mynegodd Ms Antoniazzi ei bod yn teimlo ei bod yn briodol iddi gael dealltwriaeth, fel y Prif Weithredwr newydd, pam mae lefelau staffio fel y maent a pham y mae staff yn cael eu dosbarthu fel y maent, gan ychwanegu:

“I think that drawing conclusions is for the next step in the process. We're due to report back to the Commission by the end of this calendar year, and so we're going to be speaking to the Commission in December and possibly in January as well about recommendations emerging.”⁶⁶

124. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus Cymru yn gorfod gwneud toriadau ariannol parhaus oherwydd mesurau caledi, fod angen i'r Pwyllgor brofi a herio nifer gyffredinol y staff yng Nghomisiwn y Cynulliad, sef 448 o staff cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2017, sy'n costio £19.8miliwn, a sut y caiff y rhain eu defnyddio ar draws gwasanaethau. Gwnaethom geisio canfod beth oedd effaith caledi ar Gomisiwn y Cynulliad.

125. Eglurodd Ms Antoniazzi y byddai canfyddiadau'r adolygiad o gapasiti yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid yn ogystal â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn rhoi “llinell olwg” i'r Pwyllgorau ynghylch y math o ddewisiadau y mae'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad eu gwneud yn dibynnu ar beth y mae'r Cynulliad yn ei roi i'r Comisiwn fel cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ychwanegodd:

“There is an extent to which my hands are tied by the fact that I have inherited a body of staff that are in post now, and we need to look at that. But the imperative is that we stay within the budget that is voted to us by the Assembly. The Assembly has seen fit to vote to the Assembly the resources that it has done over the last 10 years, and we will aim to

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 280

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 286

maintain the standards of excellent financial management to remain within that envelope in future years.”⁶⁷

126. Dywedodd Suzy Davies AC hefyd wrth y Pwyllgor fod cyllideb gweithredu Comisiwn y Cynulliad fel canran o gronfa gyfunol Cymru gyfan wedi aros yn sefydlog.⁶⁸ Cadarnhawyd hyn gan Nia Morgan a ddywedodd wrthym y byddai cyllideb Comisiwn y Cynulliad, sy'n ganran o Gronfa Gyfunol gyffredinol Cymru, yn 0.34 y cant o'i gymharu â 0.35 y cant y llynedd, sef lleihad sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cynulliad gyflawni'r un peth am lai.⁶⁹

127. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wneir gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu capasiti ond nid ydym yn teimlo ein bod wedi cael digon o dystiolaeth mewn perthynas â sut y mae nifer y staff wedi newid dros amser a sut y mae'r niferoedd yn ymwneud â chyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae hwn yn faes yr hoffem archwilio ymhellach iddo unwaith y bydd canfyddiadau'r adolygiad o gapasiti yn cael eu rhannu gyda ni.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu manylion inni am sut y mae ei adolygiad o gapasiti wedi profi lefelau staffio a darparu manylion am sut y caiff staff eu lleoli i gyflawni blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad.

Absenoldeb Staff

128. Yn ystod gwaith craffu y llynedd ar Gyfrifon Comisiwn y Cynulliad, archwiliodd y Pwyllgor lefelau absenoldeb staff ac er inni groesawu'r gwaith a wnaed i leihau'r cyfraddau absenoldeb staff, a'r ymrwymiad i fynd i'r afael â salwch, roeddem yn awyddus i ailymweld â'r lefelau o absenoldeb oherwydd salwch.

129. Roedd cyfradd gyffredinol Comisiwn y Cynulliad o ran absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn yn gyfartaledd o 7.78 diwrnod gwaith fesul person, sy'n uwch na tharged Comisiwn y Cynulliad o 7 niwrnod, ond mae'n is na chyfartaledd y sector cyhoeddus o 7.9 diwrnod, yn ogystal â ffigur y llynedd a oedd yn 8.09 diwrnod gwaith.⁷⁰

130. Nododd ein Pwyllgor blaenorol yn ystod y gwaith o graffu ar gyfrifon 2014-15 fod cyfraddau salwch wedi codi ers 2013-14 ac mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 295

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 302

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 303

⁷⁰ Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad

ym mis Ionawr 2016⁷¹ roedd Comisiwn y Cynulliad wedi awgrymu bod rhesymau amrywiol wedi bod am y cynnydd mewn cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ers mis Ionawr 2015, gan gynnwys:

- Cynnydd mewn absenoldebau oherwydd straen a gorbryder: y gellir eu priodoli'n rhannol i'r gwaith rheoli gweithredol o danberfformiad, ynghyd ag achosion disgyblu a chwyno cysylltiedig.
- Cyfrifoldebau gofalu heriol i rai aelodau o staff, yn arbennig perthnasau hŷn.

131. Gwnaethom waith dilynol ar y gwaith craffu blaenorol hwn a gofyn sut y mae absenoldebau oherwydd salwch wedi newid ers mis Mawrth 2017 a pha gamau yr oedd Comisiwn y Cynulliad yn eu cymryd i leihau absenoldebau oherwydd salwch ymhellach a chefnogi cyflogeion sydd â phroblemau iechyd meddwl:

132. Eglurodd Ms Antoniazzi:

“There is a slightly worrying spike in people feeling concerned about their work-life balance, which connects to your original question about people’s mental health in the workplace. That is something that is a grave concern to us, obviously, and the Commission’s HR business partners do work closely with the heads of service to monitor this and support the well-being of employees, with timely referral to occupational health, support for line managers and, of course, in more serious and acute cases, exercising our full duty of care by providing access to specialist mental health provision.”⁷²

133. Eglurodd Ms Antoniazzi hefyd fod Comisiwn y Cynulliad wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys wythnos codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lansio rhwydwaith staff i'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt o ran iechyd meddwl.⁷³

134. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y ffaith, o gymharu â'r ffigurau ar gyfer pum mlynedd yn ôl, fod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi codi i gyfartaledd o wyth diwrnod fesul cyflogai, o gymharu â chwe diwrnod. Cwestiynwyd

⁷¹ **Ymateb Comisiwn y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2014-15**

⁷² Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 351

⁷³ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 352

a oedd y cynnydd hwn yn gyfan gwbl am resymau iechyd go iawn, neu a oedd ffactorau eraill yn cyfrannu at yr absenoldebau oherwydd salwch.⁷⁴

135. Awgrymodd Ms Antoniazzi fod y ffaith bod mwy o achosion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn benodol yn cael eu cofnodi yn ganlyniad cadarnhaol, gan awgrymu bod staff yn teimlo'n fwy hyderus yn egluro eu habsenoldeb, sy'n ei gwneud yn haws helpu cyflogeion gyda'r problemau hyn. Ychwanegodd hefyd:

"I think that there are a number of HR issues that we are going to need to confront in the next few years going forward. That doesn't mean to say that these issues have not been prioritised in recent years. It's simply that, like any organisation, we're growing and changing, lots of pressures on us, and I think we need to keep an eye on the well-being of our staff, and Assembly Members, indeed, and respond to those pressures."⁷⁵

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o reoli absenoldebau staff yn effeithiol a sicrhau lles staff. Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fonitro lefelau absenoldebau staff yn ofalus, gan gynnwys dadansoddi achosion yr absenoldebau oherwydd salwch er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol.

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 355

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Hydref 2017, paragraff 369

7. Cyngor Celfyddydau Cymru

136. Dyma'r ail dro i'r Pwyllgor graffu ar gyfrifon Cyngor Celfyddydau Cymru, ar ôl cael eu harchwilio ddiwethaf yn 2014-15.⁷⁶ Caiff ei gyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamed ar 11 Gorffennaf 2017.

Targedau perfformiad

137. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi anelu at gyflwyno rhaglen hyfforddi'r celfyddydau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd y prosiect yn ddibynnol ar nodi arian cyfatebol ar gyfer cais am arian Ewropeaidd, ond oherwydd blaenoriaethau ariannu mewn mannau eraill, ni chafodd hyn ei ddatblygu. Holodd y Pwyllgor a oedd Cyngor y Celfyddydau wrthi'n rhedeg unrhyw brosiectau eraill ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

138. Cadarnhaodd Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, fod gan Gyngor y Celfyddydau raglen helaeth o weithgareddau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac ardaloedd difreintiedig. Eglurodd fod Cyngor y Celfyddydau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen Cyfuno, sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o anfantais a'u bod yn gweithio gydag ystod o gyrff eraill i ddarparu gweithgareddau ac arian yn yr ardaloedd hynny.⁷⁷

139. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch faint o arian sy'n cael ei ddyrannu i brosiectau i gefnogi pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.⁷⁸ Mewn gohebiaeth ychwanegol gyda'r Pwyllgor, nododd Cyngor y Celfyddydau fanylion am ei gyllideb a phrosiectau sy'n targedu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn benodol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn parhau i gefnogi ymgysylltiad â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn tri phrif ffordd:

- Rhaglenni cymorth strwythuredig drwy bartneriaethau strategol (megis Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Noson Allan a Cyfuno).
- Gwaith ein sefydliadau celfyddydol a ariennir gan refeniw, Portffolio Celfyddydau Cymru.

⁷⁶ **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, Rhagfyr 2015**

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraffau 26-27

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 34

- Prosiectau a gefnogir drwy raglenni cyllido'r Loteri sy'n agored-i-geisiadau Cyngor y Celfyddydau.

Argymhelliad 19. Nid ydym yn fodlon ar lefel y cymorth y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei ddarparu i gefnogi ymgysylltiad â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn adolygu'r cymorth hwn gyda'r bwriad o'i gynyddu.

Adolygiad sefydliadol

140. Mewn datganiad, dywedodd Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau fod y Cyngor, yn ystod 2016-17, wedi cynnal adolygiad sefydliadol, gan leihau costau staffio a gweithredu'r Cyngor er mwyn iddo allu buddsoddi mwy yn fwy uniongyrchol yn y celfyddydau. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr adolygiad sefydliadol wedi lleihau costau rhedeg cyffredinol yn ogystal â chostau staff.⁷⁹

141. Cadarnhaodd Mr Capaldi fod yr adolygiad ar draws Cyngor y Celfyddydau yn gyffredinol a bod cymysgedd o ddiswyddiadau gwirfoddol a gorfodol. Roedd dau ddiswyddiad gorfodol a naw gwirfoddol gyda llawer mwy o geisiadau am ddiswyddiad gwirfoddol nag a roddwyd. Eglurodd Mr Capaldi fod rhai diswyddiadau gwirfoddol yn cael eu gwrthod naill ai oherwydd bod swydd briodol yn y strwythur newydd ar gyfer yr aelod hwnnw o staff neu oherwydd bod ganddynt sgiliau arbennig yr oedd eu hangen.⁸⁰

142. Roedd y Pwyllgor yn synnu gweld mai un o'r swyddi a oedd yn destun diswyddiad oedd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau o ystyried bod hwn yn cynnwys pecyn diswyddo sylweddol a'i fod wedi cael ei ddisodli gan Gyfarwyddwr Cyllid rhan-amser. Gofynnwyd am eglurhad o'r rhesymeg dros y newid sefydliadol hwn.

143. Eglurodd Mr Capaldi fod y newid yn rhan bwysig o gynllun lleihau costau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau a oedd yn anelu at sicrhau arbedion ar bob lefel o fewn y sefydliad, gan gynnwys yr uwch-dîm rheoli. Ychwanegodd:

“What we've opted to do is to make the post of director of finance and resources redundant and to replace that post, which was a full time post, with 0.6 of a post..., and for the functions that were in the resources bit to be allocated across the remaining members of the senior management team. As it happens, we have got members of that team who are expert in things like human resources and IT. So, although, because of the cost, it will take a while to recover that, it is part of that overall cost-cutting

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 56

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 61

strategy which looked at that in some detail, and, as we were developing our organisational review proposals, as well as council, our human resources and remuneration committee and our audit and risk assurance committee really did test the proposals in some detail.”⁸¹

144. Eglurodd Mr Capaldi ymhellach mai un o'r opsiynau a gyflwynwyd oedd cael gwared ar swydd y Cyfarwyddwr Cyllid a bod cyllid yn cael ei gwmpasu ar haen ychydig yn is yn y sefydliad. Nid oedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn argyhoeddedig gan y cynnig hwnnw.⁸²

145. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd rôl y Cyfarwyddwr Cyllid fel yr uwchweithiwr proffesiynol cyllid mewn sefydliad ac mae'n croesawu cadw'r rôl yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Mae cadw'r rôl ar lefel y cyfarwyddwr yn hwyluso cynrychiolaeth briodol a chytbwys ar fyrddau sefydliadau fel y nodir yn "Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011".⁸³

Argymhelliad 20. Rydym yn pryderu bod rôl Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru yn swydd rhan-amser erbyn hyn ac rydym yn argymhell bod Bwrdd Cyngor y Celfyddydau yn cadarnhau ei fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb am drosolwg ariannol strategol y Cyngor yn cael ei gyflawni'n foddhaol o fewn y sefydliad.

Cronfeydd wrth gefn

146. Nododd y Pwyllgor fod gan Gyngor y Celfyddydau swm sylweddol o arian mewn cronfeydd wrth gefn a holwyd ynghylch y rhesymeg y tu ôl i hyn. Eglurodd Mr Capaldi fod y cronfeydd anghyfngedig wrth gefn yn oddeutu £1.4 miliwn, sy'n gymharol debyg i'r flwyddyn flaenorol, ond mae balansau arian parod yn uwch. Ychwanegodd:

“One of the reasons why reserves are higher is because we have agreed with the Welsh Government that we will use some of those reserves to cover the cost of redundancies. We've not gone to the Welsh Government to ask for additional funding. We are managing the consequences of our own reorganisation within our own resources.”⁸⁴

147. Eglurodd Mr Capaldi fod swm sylweddol o arian hefyd, tua £680,000, sy'n ymwneud â'r Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mewn gohebiaeth bellach, rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor yn nodi bod gan Gyngor y Celfyddydau

⁸¹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 67

⁸² Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 71

⁸³ **Llywodraethu corfforaethol yn adrannau'r llywodraeth ganolog: Cod arfer da 2011**

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 87

gronfeydd cyfyngedig o £1,210,000 a chronfeydd anghyfyngedig o £1,414,000 ar 31 Mawrth 2017.

148. Mae'r llythyr hefyd yn nodi, fel elusen, bod Cyngor y Celfyddydau yn arsylwi canllawiau Comisiwn yr Elusennau drwy gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd anghyfyngedig i ymdopi ag amgylchiadau annisgwyl ac o un flwyddyn i'r llall mae'r Cyngor wedi ystyried bod ei ddaliad arian o 2 y cant a ganiateir yn ddigonol at y diben hwn. Ar 31 Mawrth 2017, roedd hynny'n cyfrif am oddeutu £614,000 o gronfeydd Cyngor y Celfyddydau. Cafodd yr £800,000 sy'n weddill ei gario ymlaen - ar ôl cymeradwyo achos busnes a gyflwynodd Cyngor y Celfyddydau i Lywodraeth Cymru - i gwrdd â nifer o ymrwymiadau arfaethedig a nodir yn y llythyr.

8. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

149. Sefydlwyd y Llyfrgell Genedlaethol gan Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907, ac mae'n elusen gofrestrdig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cymorth hwnnw yn cael eu nodi mewn llythyr cylch gwaith blynyddol at Lywydd y Llyfrgell Genedlaethol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Mae'r Cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 1 Awst 2017.

Cynnydd yn erbyn argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad a'r Adolygiad Llywodraethu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

150. Cafodd Cyfrifon y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer 2014-15 eu harchwilio gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad ac mae'r Pwyllgor wedi gwneud pum argymhelliad sy'n ymwneud â'r Llyfrgell Genedlaethol.⁸⁵ Asesodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed gan y Llyfrgell Genedlaethol wrth ymateb i'r argymhellion hyn a oedd yn canolbwyntio ar wella ei threfniadau llywodraethu

151. Eglurodd Lywydd y Llyfrgell Genedlaethol, Rhodri Glyn Thomas, fod y Llyfrgell Genedlaethol wedi ceisio bod yn sefydliad uchelgeisiol mewn sefyllfa heriol iawn o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Dywedodd fod y Llyfrgell Genedlaethol dros y tair i bedair blynedd diwethaf wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y Pwyllgor, yn ogystal â'r argymhellion yn adroddiad PricewaterhouseCoopers ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Eglurodd Mr Thomas:

“Fe welwch chi, o'r adroddiad diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru, a llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru, fod yr holl waith o ddiwygio ein gweithdrefnau ni ar waith gan y Llyfrgell genedlaethol, ac ein bod ni'n symud ymlaen gyda'r rheini i gyd.”⁸⁶

152. Ychwanegodd Linda Tomos, y Llyfrgellydd Cenedlaethol:

“Yr un, hwyrach, o ran elfen o'r gwaith a fydd eisiau ei symud ymlaen tan y flwyddyn nesaf fydd datblygu'r gweithlu. Rydym ni'n derbyn bod gwaith i'w wneud i wneud awdit sgiliau i edrych ar anghenion y Llyfrgell yn

⁸⁵ **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, Rhagfyr 2015**

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 169

symud ymlaen. Rydym ni'n rhagweld y bydd cynllun ar gyfer y gweithlu yn barod erbyn diwedd 2018.”⁸⁷

153. Nododd y Pwyllgor fod ei Bwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad wedi nodi yn 2015 yr ymddengys fod y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithredu cynllun pensiwn cymharol hael o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. O ystyried bod cyfrifon y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi bod costau'r cynllun pensiwn ac ymrwymadau'r dyfodol yn parhau i fod yn risg allweddol, roeddem yn cwestiynu pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth wneud newidiadau i'r cynllun.

154. Hysbysodd Mr Thomas y Pwyllgor fod bwrdd ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol wedi cadw llygad fanwl ar y cynllun pensiwn a bod is-bwyllgor yn ystyried y cynllun pensiwn o dan gadeiryddiaeth y cyn-drysorydd. Ychwanegodd:

“...rŷm ni'n hyderus bod ein cynllun pensiwn ni yn hyfyw, ac ei fod e mewn sefyllfa iach iawn, mewn gwirionedd, mewn termau real.”⁸⁸

155. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, David Michael, ragor o fanylion i'r Pwyllgor am drefniadau cynllun pensiwn y Llyfrgell Genedlaethol gan nodi bod y cynllun pensiwn yn dangos ar y fantolen bod diffyg o £9 miliwn. Eglurodd Mr Michael fod hyn oherwydd ei bod yn ofynnol i'r Llyfrgell Genedlaethol ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a bennir gan y Trysorlys, a phan fydd ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn dod i asesu'r cynllun pensiwn, mae ganddynt fwy o ryddid i ddewis cyfraddau disgownt tymor hwy. Dywedodd wrthym:

“So, when the scheme was assessed, as at March 2016, it was 99.4 per cent funded, and there was a deficit of £370,000. At the time, the actuary said that, also, the cost of accruing service in the future would increase, so, in this financial year we've negotiated with the staff some changes to the scheme, and the staff were able either to opt for an increase in retirement age to 65, or pay 3 per cent extra. So, that choice was offered to the staff. So, we've addressed the cost of future service.”⁸⁹

156. O ran y diffyg hanesyddol, eglurodd Mr Michael mai'r broblem gyda'r cynllun pensiwn nawr yw ei fod yn eithaf mawr mewn perthynas â'r cyflogwr. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gan y Llyfrgell Genedlaethol fantolen gyda £70 miliwn o asedau a rhwymedigaethau arno, felly gall amrywiad bach yn y cynllun pensiwn greu canlyniadau ariannol i'r Llyfrgell Genedlaethol.⁹⁰ Er bod £370,000 yn ddiffyg bach

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 171

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 174

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 175

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 175

iawn o ran y cynllun pensiwn, mae'n golygu bod yn rhaid i'r Llyfrgell Genedlaethol wneud cyfraniadau diffyg i'w ariannu. Fodd bynnag, sicrhaodd Mr Michael y Pwyllgor fod y cynllun pensiwn yn cael ei fonitro, ac erbyn diwedd mis Medi eleni [2017], aseswyd fod gwarged bychan ynddo ac felly ystyrir fod rhwymedigaethau hanesyddol o dan reolaeth.⁹¹

157. Yn seiliedig ar dystiolaeth Mr Michael, mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch sut y gallai'r amrywiadau yn y cynllun pensiwn achosi problemau difrifol yng nghyllideb y Llyfrgell Genedlaethol yn y dyfodol.

158. Eglurodd Mr Michael nad oedd unrhyw bryderon ar hyn o bryd a bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi gwneud yr hyn yr oedd yr actiwari wedi'i argymhell o ran cronni gwasanaeth yn y dyfodol. Ychwanegodd:

“There’s nothing much we can do about the historical liabilities that have accrued. There are some further changes we could make, from moving to career average away from final salary, but that’s a relatively small element of the cost. We’ll have to see what comes out in the next valuation and then assess how much the library could afford to put into the scheme, or go back to the membership and say, ‘We’d like to make changes in the future.’”⁹²

159. Hefyd, dywedodd Mr Michael wrth y Pwyllgor fod y ddau newid a gynigiwyd, oedran ymddeol yn 65 oed neu dalu mwy, ar y pryd, roedd yn glir y gallai fod angen newidiadau pellach i'r cynllun, ond mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi gwneud popeth y mae'r Actiwari wedi gofyn iddo ei wneud ar y pwynt hwnnw.

160. Heriodd y Pwyllgor y tystion ar eu dull o gynnig cynllun pensiwn cyflog terfynol o gofio bod y rhain yn eithaf anarferol erbyn hyn, yn enwedig yn y sefyllfa ariannol bresennol. Gofynnwyd am faint mwy o amser y mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn meddwl y byddai'n gallu cynnal ei safle o gynnig cynllun cyflog terfynol ac a oedd yn ddymunol gwneud hynny o ystyried y cyfyngiadau ariannol y mae yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

161. Nododd Mr Thomas fod bwrdd ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol wedi bod yn monitro'r sefyllfa ac ar hyn o bryd roedd yn hyderus y byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn gallu cynnal y cynllun pensiwn o ystyried y newidiadau a awgrymwyd i'r staff. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“...mae'r bwrdd yn agored i ystyried ffyrdd newydd o sicrhau pensiwn i staff yn y dyfodol os bydd yn rhaid gwneud hynny. Ond, ar hyn o bryd,

⁹¹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 177

⁹² Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 181

rydym ni'n hyderus bod modd cynnal y cynllun pensiwn fel ag y mae e, ac mae'n gynllun pensiwn sy'n hynod o lwyddiannus o'i gymharu â sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru.”⁹³

162. Dywedodd Mr Thomas wrth y Pwyllgor hefyd:

“Rydym ni'n teimlo ar hyn o bryd fod modd gwneud hynny, ac rydym ni'n awyddus i wneud hynny, ond rydym ni'n agored i newid y sefyllfa honno ar gyfer staff newydd a fydd yn dod i'r llyfrgell pe bai'n rhaid gwneud hynny. Ar hyn o bryd, nid ydym ni'n teimlo byddai hynny'n fuddiol, ac rydym ni'n teimlo bod cynnal y cynllun presennol gyda rhai newidiadau yn cynnig gwell opsiwn ariannol i'r llyfrgell hefyd.”⁹⁴

163. Daeth Mr Thomas i'r casgliad fod y Llyfrgell Genedlaethol yn ystyried datblygiadau yn y dyfodol, oherwydd pe byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn cyrraedd sefyllfa lle na fyddai'n gallu ariannu'r cynllun pensiwn, y byddai'n ceisio symud i gyfraniad diffiniedig lle mae'r costau'n is ac y caiff y risg o fuddsoddi ei drosglwyddo i'r aelodau yn hytrach na'r cyflogwr.⁹⁵

164. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y risgiau a achosir i sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell Genedlaethol gan ei chynllun pensiwn presennol, yr ydym yn ei ystyried yn hael o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Nodwn hefyd y cymhlethdodau o ran gwneud newidiadau i'r cynllun pensiwn a'r effaith y gallai hyn ei chael ar forâl staff. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y trefniadau presennol yn gynaliadwy yn y tymor hwy a bydd angen i'r Llyfrgell Genedlaethol wneud newidiadau yn unol â gweddill y sector cyhoeddus.

165. Nodwn fod ein Pwyllgor blaenorol, yn ei adroddiad ar Craffu ar Gyfrifon 2014-15, wedi mynegi pryderon ynglŷn â natur hael trefniadau pensiwn a diswyddo gwirfoddol y Llyfrgell Genedlaethol a'u bod yn ymddangos yn “anghyffredin” hyd yn oed yn ôl safonau'r sector cyhoeddus.⁹⁶

166. Cred y Pwyllgor hwnnw fod angen archwilio i gynaliadwyedd y cynllun, yn enwedig yn y sefyllfa economaidd bresennol, ac roedd yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn adolygu hyn. Dyma farn a rennir gan y Pwyllgor hwn.

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn adolygu ei chynllun pensiwn fel mater o frys ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y gall

⁹³ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 184

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 192

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 193

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, tudalen 23

weithredu cynllun sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy, o ystyried y caledi parhaus a'r pwysau sydd ar gyllid cyhoeddus.

Risgiau

167. Yn ogystal â'r risgiau sy'n ymwneud â'r cynllun pensiwn, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn nodi bod ansicrwydd ariannol yn risg allweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Er bod cyllid refeniw cymorth grant ar gyfer y sefydliad wedi cynyddu 3.5 y cant yn 2017-18, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn nodi bod y Bwrdd a'r rheolwyr yn pryderu am y gostyngiadau cyllid sylweddol yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Er bod modd rheoli'r diffyg drwy ddefnyddio'r gronfa breifat anghyfyngedig yn y byrdymor, mae'n nodi y gall fod angen rhagor o ad-drefnu yn y tymor hwy er mwyn sicrhau'r arbedion sydd eu hangen, ac efallai na fydd y Llyfrgell Genedlaethol yn gallu cyflawni ei hamcanion os yw toriadau ariannol yn parhau.

168. O gofio'r cwestiynau y gofynnodd y Pwyllgor ynghylch y risgiau a geir yn sgil trefniadau pensiwn cyfredol y Llyfrgell Genedlaethol, gwnaethom holi'r Llyfrgell ynghylch pam nad oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i newid trefniadau pensiwn y Llyfrgell Genedlaethol ac i sicrhau bod cynaliadwyedd ariannol wrth symud ymlaen. Eglurodd Mr Thomas:

“Na, nid ydym yn teimlo mai dyna ydy'r ateb ar hyn o bryd, er, fel y dywedom ni yn gynharach, rydym ni yn cadw y drws hwnnw ar agor petai rhaid gwneud hynny. Y realiti ydy y byddai newid y cynllun pensiwn ar hyn o bryd yn golygu mwy o gostau i'r Llyfrgell na chynnal y cynllun fel ag y mae. Felly, rydym yn cadw golwg ar hynny, ond ar hyn o bryd, mae hynny dan reolaeth. Rydym yn gweld cyfraniadau elusenol, yn enwedig drwy ewyllysiau, fel ffordd yn draddodiadol y mae'r Llyfrgell wedi llwyddo i dderbyn arian, ond yn ogystal â'r arian a ddaeth o'r loteri treftadaeth, mae yna ystod o gymorthdaliadau llai wedi dod oddi wrth y loteri a chyrrff eraill.”⁹⁷

169. Ychwanegodd Mr Michael:

“...bod y llythyr cylch gorchwyl wedi gofyn i ni edrych ar ffyrdd rydym yn gallu alinio amodau gwaith staff y Llyfrgell gyda staff y gwasanaeth sifil? Felly, byddai symud i ffwrdd o'r cynllun pensiwn yn symud i ffwrdd o delerau tebyg ar y gwasanaeth sifil. Ac hefyd, byddwn i'n dweud bod cyflogau yn y Llyfrgell yn tueddu i fod yn isel. Median salary y Llyfrgell yw £23,000 y flwyddyn. Yn y Llywodraeth, mae'n £35,000. Felly, rydym yn bell i ffwrdd o amodau gwaith y gweision sifil. Felly, rwy'n meddwl, pe

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 257

byddem ni yn symud i ffwrdd o'r cynllun pensiwn presennol, byddai hynny'n ergyd i'r staff ac yn ein symud ni i ffwrdd o alinio amodau gwaith.”⁹⁸

170. Gofynnodd y Pwyllgor y cwestiwn a fyddai mwy o ddiogelwch ariannol dros gyfnod hwy o amser yn helpu sefydliadau fel y Llyfrgell Genedlaethol i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd y Pwyllgor at lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor ynglŷn â'r Llyfrgell Genedlaethol a oedd yn nodi:

“The Library has not yet addressed explicitly in its strategic planning the difficult questions of what core services; it may need to reduce or cease providing in future if levels of Grant-in Aid reduce.”⁹⁹

171. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn arwydd o'r ffaith bod rhywfaint o wrthod ynghylch y lefel sy'n dirywio o wariant cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethom bwysleisio, er ei bod yn gysur parhau i ddweud, “Byddai'n dda pe bai gennym fwy”, roeddem yn teimlo nad oedd y Llyfrgell Genedlaethol yn anolbwyntio ar ba gamau y mae angen iddi eu cymryd.¹⁰⁰

172. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod strategaeth pedair blynedd y Llyfrgell Genedlaethol a'i chynllun gweithredol yn cael ei rhagfynegi'n benodol ar barhad y lefelau cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru a gallu'r Llyfrgell Genedlaethol i gynyddu ei hincwm ychwanegol i £1 filiwn yn flynyddol dros y cyfnod o bedair blynedd.

173. Er na chyfeirir yn y cynlluniau at ba wasanaethau y bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn eu newid, os na chaiff y rhagdybiaethau ariannol eu bodloni, mae Cynllun Gweithredol y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi ymrwymiad i weithredu strategaethau blaengynllunio ariannol, sy'n ei galluogi i wynebu cyd-destun ariannol ansicr ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus mewn ffordd fwy gwydn erbyn 2021.

174. Mae gallu'r Llyfrgell Genedlaethol i asesu'r modd y mae'n darparu gwasanaethau yn cael ei effeithio gan y ffaith, er bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi ymrwymo i arloesi a newid ei dull o fodloni gofynion a chyfleoedd newydd (Cynllun Strategol 2017-2021, tudalen 9), nid yw'n glir eto sut y bydd ffactorau allanol, megis y rhaglen ddigido, yn effeithio ar sut y gall y Llyfrgell Genedlaethol, neu y bydd yn rhaid iddi, ddarparu ei gwasanaethau yn y dyfodol. Hefyd, mae angen i'r Llyfrgell Genedlaethol gynnal yr Archwiliad Sgiliau arfaethedig a llunio ei Strategaeth Pobl a'i

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 258

⁹⁹ **PAC(5)-28-17 P6**, Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 25 Hydref 2017

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 232

Chynllun Datblygu Gweithlu arfaethedig, cyn y gall nodi pa wasanaethau y gall eu lleihau neu eu newid, os oes angen, a sut y gellir gwneud hyn.

175. Eglurodd Mr Thomas nad oedd yn dehongli'r llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol yn yr un modd â'r Pwyllgor, ac ychwanegodd:

“Rwy’n credu ei fod e yn nodi y pryderon am y sefyllfa sydd yn ein hwynebu ni. Fel y dywedais i ynghynt, os ydym ni’n edrych ymlaen pump i 10 mlynedd, mae yna her ariannol enfawr yn ein hwynebu ni a phob sefydliad arall yn y sector gyhoeddus. Rwy’n dod yn ôl at y pwynt y gwnes i yn wreiddiol hefyd: mater i’r lle yma, i wleidyddion y lle yma—y Llywodraeth yn benodol, ond i wleidyddion o bob plaid—yw mynd i’r afael â phroblem sylfaenol y ffaith bod y gwariant ar iechyd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn lle mae’r gyllideb ar hyn o bryd yn crebachu o flwyddyn i flwyddyn. Tra bod hynny yn parhau, mae’r bygythiad i bob sefydliad arall o fewn y sector gyhoeddus yn cynyddu.”¹⁰¹

176. Aeth Mr Thomas yn ei flaen i ddweud wrth y Pwyllgor fod y Llyfrgell Genedlaethol yn ymwybodol o’r cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus ac roedd wedi cymryd camau pragmatig i ymateb i hyn, gan ychwanegu:

“Rŷm ni wedi dweud, wrth gwrs, petai gennym ni fwy o arian, byddem ni’n gallu gwneud mwy. Ond nid oeddem ni ychwaith eisiau bod mewn sefyllfa lle’r oeddem ni yn wynebu sefyllfa lle’r oedd staff y llyfrgell yn mynd o flwyddyn i flwyddyn yn gwneud yr un gwaith o ddydd i ddydd gyda llai a llai o adnoddau. Felly, rŷm ni wedi mentro ar y llwybr digidol, sydd yn golygu bod yna heriau newydd yn wynebu’r staff ac rŷm ni’n falch o ddweud bod ein staff ni wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i hynny. Rŷm ni wedi newid y strwythur rheoli, sy’n golygu bod y tîm uwch-reoli wedi mynd i lawr o saith i dri, felly mae yna lawer iawn mwy o gyfrifoldebau wedi mynd i lawr i benaethiaid adrannau ac maen nhw wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i hynny. Felly, rŷm ni’n cadw llygad barcud ar y sefyllfa.”¹⁰²

177. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i sylwadau Mr Thomas, gan nodi ei ddehongliad gwahanol i’r Pwyllgor o’r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fodd bynnag, rydym yn glynu at ein barn nad yw’r Llyfrgell Genedlaethol yn gwneud digon i edrych ymlaen at ba wasanaethau craidd y gall fod angen iddi eu lleihau neu roi’r gorau i’w darparu yn y dyfodol os bydd lefel y cymorth grant yn lleihau. Ein barn ni yw yr ymddengys nad yw’r Llyfrgell yn derbyn hyn.

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 233

¹⁰² Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 234

178. Ymatebodd Mr Thomas drwy ddweud nad oedd yn derbyn nad oedd y Llyfrgell Genedlaethol wedi wynebu'r sefyllfa ac roedd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r Llyfrgell Genedlaethol yn y pum i ddeng mlynedd nesaf. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“Rŷm ni wedi llwyddo i ymateb i hynny hyd yn hyn drwy beidio â thorri nôl ar y gwasanaethau craidd rŷm ni'n eu cynnig ac ymestyn gwasanaethau y llyfrgell i gyfeiriadau newydd a sicrhau mwy o fynediad gan y cyhoedd i'r casgliadau sydd gyda ni.

[...]

Yn sicr, fe fyddwn ni fel bwrdd yn cymryd ystyriaeth o'r hyn y mae'r swyddfa archwilio yn ei ddweud ac yn sicrhau bod yna olwg barcud yn cael ei gynnal ar ein gwasanaethau craidd ni. Mae'n rhaid cofio bod yna ofynion statudol arnom ni i gyflenwi y gwasanaethau craidd hynny, a dyna pam roeddwn i'n dweud yn gynharach bod ein rôl ni fel ymddiriedolwyr nid yn unig yn rôl o ymateb i ofynion y Llywodraeth fel ein prif ffrwd ariannol ni, ond hefyd mae gennym ni gyfrifoldeb i sicrhau buddiannau yr elusen i'r hirdymor. Ac rwy'n hyderus ein bod ni'n gwneud hynny, ond rydw i'n ddiolchgar i Swyddfa Archwilio Cymru am ein hatgoffa ni o hynny hefyd.”¹⁰³

Argymhelliad 22. Rydym yn pryderu nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cydnabod yn llawn yr heriau a'r goblygiadau o wrthod cyllid yn y dyfodol ac rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir yn ei gwaith cynllunio senario ar gyfer y dyfodol sut y mae'n bwriadu ymateb i'r gostyngiad hwn mewn cyllid.

Strategaeth datblygu'r gweithlu

179. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru Adolygiad o Lywodraethu y Llyfrgell Genedlaethol.¹⁰⁴ Daeth Argymhelliad 11 yr adolygiad i'r casgliad, wrth lunio ei Strategaeth Datblygu'r Gweithlu, y dylai'r Llyfrgell Genedlaethol weithredu dull dau gam o reoli'r gwaith o gynllunio gweithlu drwy:

- Asesu trefniadau presennol y gweithlu er mwyn llywio adolygiad strategol o swyddogaethau'r Llyfrgell Genedlaethol a chyflenwi yn y dyfodol; ac

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 237

¹⁰⁴ **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Adolygiad o Lywodraethu**

- Unwaith y bydd y cyfeiriad strategol yn glir, datblygu “Strategaeth Pobl” sy’n adlewyrchu’r cynllun corfforaethol ac sy’n cynnwys elfennau cynllunio’r gweithlu, cynllunio olyniaeth a rheoli talent.

180. Yn ei lythyr, ar 25 Hydref 2017,¹⁰⁵ at y Pwyllgor, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y ffaith nad yw’r Llyfrgell Genedlaethol wedi mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn eto a bod y rhan fwyaf o’r gwaith sydd ei angen ar gyfer yr argymhelliad hwn i’w wneud o hyd. Holodd y Pwyllgor pam mae cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn wedi bod yn araf.

181. Dywedodd Ms Tomos wrth y Pwyllgor fod angen amser i sicrhau bod y gwaith o weithredu’r argymhelliad yn cael ei wneud yn briodol ac yr ymgysylltir yn llawn â staff y Llyfrgell Genedlaethol. Eglurodd:

“Felly, y ffordd rydym yn mynd ati yw, yn y cynllun strategol pedair blynedd, byddwn yn cychwyn gydag awdit o sgiliau—hynny yw, pa sgiliau y bydd y Llyfrgell eu hangen yn symud ymlaen, yn enwedig wrth feddwl ein bod ni’n trawsnewid y Llyfrgell i fod yn llyfrgell ddigidol. Ac, o hynny, byddwn ni’n gweld beth ydy’r gaps, beth sydd gennym ni ddim, beth mae’n rhaid i ni ei lenwi o ran hyfforddiant, ac o ran cael staff gyda’r hyblygrwydd, hwyrach, i ddysgu sgiliau newydd. Byddwn ni’n symud ymlaen wedyn i gynllun ar gyfer pobl—hynny yw, cynllun i helpu unigolion yn y Llyfrgell i ymdopi â gwaith newydd, sefyllfa waith newydd, yn enwedig nôl i’r cwestiwn yma o ychwanegu at ein darpariaeth ddigidol.”¹⁰⁶

182. Daeth Ms Tomos i ben drwy hysbysu’r Pwyllgor y bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn cyflwyno cynllun gweithlu drafft i’r Bwrdd ac i’r Llywodraeth erbyn diwedd 2018, er mwyn datrys sefyllfa anodd iawn i’r staff. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor o’r farn bod y dull hwn yn cefnogi ein dehongliad o lythyr yr Archwilydd Cyffredinol wrth inni ofyn a yw’n rhesymol, hyd yn oed gydag ymgynghoriad staff, y dylai’r adolygiad gymryd blwyddyn i’w gwblhau.

183. Roedd Mr Thomas hefyd yn awyddus i bwysleisio i’r Pwyllgor fod pwyslais ar wella cyfathrebu mewnol y Llyfrgell Genedlaethol, a chydweithio â staff a’r undebau llafur, mewn adroddiadau gan PricewaterhouseCoopers a Swyddfa Archwilio Cymru. Ychwanegodd fod y Llyfrgell Genedlaethol yn hyderus bod y gydberthynas hon wedi’i chryfhau.

184. Rydym yn croesawu’r gwaith y mae’r Llyfrgell yn ei wneud i gyflwyno cynllun gweithlu drafft erbyn diwedd 2018 a bod cyfathrebu mewnol y Llyfrgell

¹⁰⁵ **PAC(5)-28-17 P6.** Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 25 Hydref 2017

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, 6 Tachwedd 2017, paragraff 271

Genedlaethol, a chydweithio â staff ac undebau llafur wedi gwella. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch pa mor gyflym y mae'r adolygiad hwn yn cael ei wneud, yn enwedig o ystyried yr hyn y mae'r Llyfrgell Genedlaethol ei hun, wedi'i ddisgrifio fel "sefyllfa heriol iawn". Rydym yn cwestiynu a yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r cynllun gweithlu yn briodol o ystyried yr amgylchiadau.

Argymhelliad 23. Rydym yn pryderu bod cyflymder y newid a'r amserlenni ar gyfer darparu cynllun gweithlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn annigonol. Rydym yn argymhell bod y Llyfrgell Genedlaethol yn nodi'n glir ei chynllun gweithredu ar gyfer darparu ei chynllun fel mater o frys ac yn rhannu'r cynllun hwn â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Atodiad A – Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?iid=15048>

Enw	Sefydliad
2 Hydref 2017	
Sophie Howe	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Helen Verity	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Shan Morgan	Llywodraeth Cymru
David Pritchard	Llywodraeth Cymru
Gawain Evans	Llywodraeth Cymru
Peter Kennedy	Llywodraeth Cymru
9 Hydref 2017	
Sarah Powell	Chwaraeon Cymru
Peter Curran	Chwaraeon Cymru
Manon Antoniazzi	Comisiwn y Cynulliad
Suzy Davies AC	Comisiwn y Cynulliad
Nia Morgan	Comisiwn y Cynulliad
6 Tachwedd	
Nick Capaldi	Cyngor Celfyddydau Cymru
Gwyn Williams	Cyngor Celfyddydau Cymru
Linda Tomos	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Rhodri Glyn Thomas	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
David Michael	Llyfrgell Genedlaethol Cymru